




y Lle Celf

Noddwyr Balch
Medal Aur am Bensaernïaeth

Eisteddfod Genedlaethol Cymru



Cymru...wedi'i dylunio'n well

DESIGN COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

Cynnwys

Contents

Gair o'r Gadair • A Word from the Chair Mari Beynon Owen	4
Yn aml, mater o chwarae â rhifau yw hi i Gyngor Celfyddydau Cymru • Often an Arts Council needs to play the numbers game	8
Sylwadau'r Detholwyr • Selectors' Statements Sean Edwards • Declan McGonagle • Laura Thomas	10
Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain • The Gold Medal for Fine Art	26
Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio • The Gold Medal for Craft and Design	28
Ysgoloriaeth Artist Ifanc • Young Artist Scholarship	30
Gwobrau Eraill • Other Awards	33
Arddangoswyr • Exhibitors	34
Pensaerniaeth yng Nghymru • Architecture in Wales	51
Datganiad y Detholwyr Pensaerniaeth • Architecture Selectors' Statement Dan Benham • Rhian Thomas	60
Ysgoloriaeth Pensaerniaeth • Architecture Scholarship Dan Benham • Chris Bird-Jones	68
Ennill Tir i Bensaerniaeth Cymru • Gaining ground for Architecture in Wales	72
BAN	76

Gair o'r Gadair

A Word from the Chair

Mae'n anodd credu fod bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i aelodau'r Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol ddechrau ymgynnull ym Mhenarth. Wedi teithio o bob ban o'r sir, o'r Ewenni, Llandochau, Sain Hilari, a Llanbedr y Fro; yn grochenwyr, arlunwyr, cerflunwyr, gemyddion a chynhyrchwyr creadigol, byddai'r sgwrs yn troi at yr hinsawdd ddiwylliannol sydd wedi siapiro gwaith artistiaid Bro Morgannwg.

Dyma fro unigryw, anhysbys i'r rhelyw, yn gorwedd yn llechwraidd yng nghysgod y brifddinas ond eto, bro a fu unwaith yn ganolfan Ewropeaidd i ddysgeidiaeth ddiwinyddol, a sawl canrif yn ddiweddarach, lle y digwyddodd un o'r datblygiadau technegol pwysicaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a drawsnewidiodd dulliau cyfathrebu. Yr etifeddiaeth bwerus hon, a'r gyfnewidfa greadigol a sbardunwyd gan ein sgwrsiau difyr, sydd i'w ddathlu eleni yn Y Lle Celf.

Man cychwyn ein dyheadau am Y Lle Celf, ac yn arbennig y prosiect BAN, oedd sylweddoli arwyddocâd lleoliad Maes yr Eisteddfod ei hunan a'r llwybrau sydd yn deillio ohoni: y llinellau cyntefig sy'n cysylltu hen, hen safleoedd; y cylch o eglwysi hynafol a'r rhwydwaith o bentrefi; a'r hyn a fydd yn amlwg iawn i eisteddfodwyr, rhedfeydd tarmac yr hen faes awyr. Os oes un nodwedd arbennig i'r fro hon, creu cysylltiadau â phedwar ban y byd yw hwnnw, ers cyfnod teithiau tramor seintiau Llanilltud Fawr; arbrawf hanesyddol Marconi ar Drwyn Larnog i anfon negeseuon radio; ac yn fwy diweddar, y maes awyr, ein porth rhyngwladol.

Fel pwyllgor roeddem yn ymwybodol iawn o gysyniad craidd yr Eisteddfod o adeiladu 'caer' ddiwylliannol a'i gosod yn y dirwedd gydag amddiffynfeydd cadarn. Roeddem yn awyddus i'r Lle Celf adlewyrchu yn hytrach y 'mynd a dod' di-ben draw; yr awydd i ddatblygu syniadau ac ehangu gorwelion sy'n nodweddu'r ardal hon. Ein hymateb ni yw ceisio chwalu'r ffin 'amddiffynnol' o gwmpas y Maes a chreu cysylltiadau 'byw' newydd ar ei thraws ac allan i'r Fro.

Gwahoddwyd cyfranwyr i arbrofi gyda ffilm, sain, perfformio, a cherddoriaeth mewn amrywiol leoliadau o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol. Bydd gwaith Artistiaid Sonig Cymru, Cathy Boyce, good cop bad cop, Richard Powell, Roger Lougher a myfyrwyr o Goleg Frenhinol Cerdd a Drama Cymru yn cael ei 'ddarlledu' o safle BAN yn Y Lle Celf dros yr wythnos. Argraffiadau gweledol, cardiau post byw, atseiniau – celf 'ar grwydr', byrfyfyrion, darfodedig.

Gwireddwyd y prosiect trwy gefnogaeth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru ac YMDDIRIED, (Yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Gymreig), sydd yn cefnogi addysg a hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau creadigol a thechnegol mewn radio, teledu, a chyfryngau digidol. Mae BAN wedi cynnig cyfle unigryw i greu perthynas newydd rhwng celf weledol a'r cyfryngau torfol newydd, yn arbennig gan fod y prosiect wedi galluogi myfyrwyr a newydd-ddyfodiadaid i rannu plattform gydag artistiaid blaengar.

Mae elfennau perfformiadol BAN yn talu teyrnged anuniongyrchol i Ysgol Haf y Barri, a ysgogodd genhedlaeth newydd o artistiaid i arbrofi, o dan ddylanwad tiwtoriaid uchel iawn eu parch ym Mhrydain. Yn y 1960au a'r 1970au, dyma gyrchfan pwysig i artistiaid blaengar mewn sawl maes – arlunio, cerflunio, celf perfformiadol, gwehyddu a jazz. Ymgartrefodd nifer ohonynt ym Mro Morgannwg ac yn eu tro maent hwythau wedi dylanwadu ar artistiaid yma. Bydd arddangosfa arbennig o waith nifer o'r rhai a fu'n mynychu'r Ysgol Haf i'w gweld yn oriel Celf Ganolog, Neuadd y Dref, Y Barri hyd at 8 Medi; bydd perfformiad arbennig ar y Maes ar 5 Awst yn cyfleu naws y gwaith perfformio cynnar a bydd cyfle i wrando ar yr artist Ifor Davies, a fu yno yn 'fyfyrwr' yn hel atgofion am y cyfnod cyffrous hwn ar 9 Awst.

Mae ysgogi doniau newydd a hybu cyfleoedd i newydd-ddyfodiadaid hefyd yn ganolog i weithgaredd Y Lle Celf a hyn trwy haelioni'r rhai sy'n cyflwyno'r amrywiol wobrau bob blwyddyn. Eleni cynigir gwobr newydd sbon sef gwobr er cof am yr artist Tony Goble a roddir am waith



Docio

Carwyn Evans

sy'n cyfleu ysbryd barddonol y genedl Geltaidd hon, gan artist sy'n arddangos am y tro cyntaf yn yr Arddangosfa Agored.

Ers sawl mlynedd bellach mae Ifor Davies wedi cyflwyno gwobr am waith sy'n cyfleu ysbryd y frwydr dros iaith, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru. Mae'n braf hefyd fod Sefydliad Celf Josef Herman wedi cadarnhau eu cefnogaeth barhaus i Wobr Josef Herman - Dewis y Bobl a Rhodri Morgan, y cyn Prif Weinidog, fydd yn cael o fraind o gyhoeddi'r enillydd ar y dydd Sadwrn olaf.

Datblygiad newydd eleni yw cael y Babel Lén yn gymydog inni sy'n adlewyrchu awydd y ddau bwyllgor i greu hinsawdd greadigol agored. Mae'r prosiect, *Baledi a Thribannau Newydd Morgannwg*, yn cyfuno barddoniaeth gyda chelf weledol; bydd criw Haciaith yn gweithio rhwng y ddau bafiliwn; ac edrychwn

ymlaen at glywed ymateb y bardd Mari George i'r gwaith celf yn yr Arddangosfa Agored.

A hefyd o fewn tafliad carreg fydd y Pafiliwn Pensaerniaeth newydd sy'n adlewyrchu'r diddordeb amlwg mewn datblygu pensaerniaeth gyfoes yng Nghymru. Mae cefnogaeth gyson Comisiwn Dylunio Cymru i hybu pensaerniaeth yn yr Eisteddfod yn dwyn ffrwyth ac i'w glodfori, gyda'r cynnydd yn yr adran yn brawf o hynny.

Mae'r detholwyr wedi gwneud eu dewis - diolch am eu dycnwch a'u cydweithrediad.

Diolch i :

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am y rhodd hael o £5,000 i enillydd Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain.

Cyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth, sy'n sicrhau presenoldeb Y Lle Celf a'r gwaith ardderchog a wneir yn yr Eisteddfod Genedlaethol i gydnabod celf weledol; crefft a dylunio, a phensaerniaeth yng Nghymru. Hefyd, diolch am eu cefnogaeth ymarferol i'r prosiect arbennig, BAN trwy sicrhau fod yr offer technegol ar gael inni.

Robyn Tomos am ei gefnogaeth a'i amynedd wrth hwyluso'r holl waith trefnu; i'r criw technegol; ac yn arbennig i Paul Emmanuel am ei arbenigedd a'i reolaeth dechnegol ar gyfer BAN.

Diolch i aelodau'r pwyllgor am gyfrannu i gyfarfodydd bywiog a hynod greadigol. Fel cadeirydd rwyf wedi mwynhau eich cwmni a'ch cyfraniadau ysbrydoledig.

I Foxy's, Penarth am gael cwrdd yno a'r paneidiau coffi am ddim.

Mari Beynon Owen

Cadeirydd

Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol

O'r Gadair

A Word from the Chair

It's difficult to believe that almost two years has gone by since the Visual Arts Sub-committee began to meet in Penarth. Having travelled from the four corners of the county, from Ewenny, Llandough, St Hilary, and Peterston super Ely; the conversation between ceramicist, painter, sculptor, silversmith, performance artist and creative producer revolved around the creative environment which shapes artistic practice in the Vale of Glamorgan.

It's a unique place, still unknown to many, nestling in the shadow of the capital city, and yet an area which became an European centre of theological thinking and where probably one of the most important technological experiments of the nineteenth century, and which revolutionised communications, took place. It was therefore agreed that this year's Lle Celf should reflect this potent legacy and be the catalyst for ongoing creative synergies.

The starting point for our aspirations for Y Lle Celf, and in particular the BAN (beacon) project was realising the significance of the Eisteddfod site itself since it serves as a hub from which several paths lead out: the primeval lines which link up several ancient sites; the surrounding ring of important old churches and network of villages, and more recently the tarmac runways of the old airfield. It would seem that one overriding feature of this vale is its connections with the four corners of the world: since the time when the saints set forth on their journeys overseas; when Marconi set up his historic experiment to send radio messages from Lavernock Point to the outside world; and now the international gateway provided by the airport.

The committee was very aware of the core concept of the Eisteddfod as creator of a cultural 'fort' encircled by strong defences. It was felt that Y Lle Celf however should reflect a place of constant movement; where there is the desire to develop ideas and look beyond the horizon. We would need to break through the 'boundary wall' around the Maes and create new 'live' communications across it and beyond.

Contributors were invited to work in film, sound, performance and music in several locations across the Vale. Cathy Boyce, good cop bad cop, Richard Powell, Roger Lougher, Sonic Artists Wales; and students from the Royal Welsh College of Music and Drama will provide work to be 'broadcast' from the BAN area within Y Lle Celf over the week. Visual impressions, live post cards, sounds and echoes – capturing the ephemeral, the impromptu, the art of constant change and movement.

The project was made possible by financial support from Arts Council of Wales and YMDDIRIED, (The Welsh Broadcasting Trust), which supports education and training for the development of creative and technical skills in radio, television and digital media. BAN is an opportunity to create a new relationship between visual arts and new media, especially as the project has enabled students and newcomers to share a platform with leading artists.

The performance elements of BAN pay homage to the Barry Summer School, which inspired a new generation of artists to experiment, under the tutelage of highly regarded tutors from across Britain. During the 1960s and 1970s, the School became an important meeting place for artists working in many different genres - painting, sculpture, performance art, weaving and jazz. Several of these artists then settled in the Vale of Glamorgan and in turn influenced artists here. A special exhibition of work by artists who attended the Summer School will be held at Art Central, Barry Town Hall, until 8 September; a performance piece, in the spirit of the early performance work will take place at the Eisteddfod Field on 5 August and there will be an opportunity to hear Ivor Davies reflect on his 'student' days on 9 August.

Encouraging new talent to emerge and promoting opportunities for newcomers is also central to the work of Y Lle Celf, made possible by the generosity of those who sponsor the various awards every year. This year a new award is being presented, in memory of the artist Tony Goble, for the work which expresses



Am gael bod rhywle arall (amlygrwydd) / To be elsewhere (saliency)

Anne Gibbs

the poetic spirit of this Celtic nation by an artist who is exhibiting for the first time in the Open Exhibition.

For many years Ivor Davies has presented an award for a work which conveys the spirit of the battle for the language, culture and politics of Wales. We are also extremely pleased that the Josef Herman Art Foundation has confirmed its continuing sponsorship of the Josef Herman Award – The People’s Choice and Rhodri Morgan, the former First Minister, will have the privilege of announcing the winner on the last Saturday.

A new and welcome development is that Y Babel Lân (Literature Pavilion) is our neighbour which reflects the two committees’ desire to create a new open creative ambience. The *New Ballads and Triplets* project combines poetry and visual art; the Haciaith collective will be working across both pavilions and we look forward to hearing the poet Mari George’s response to the artwork in the Open Exhibition.

A newcomer to the Eisteddfod field is the Architecture Pavilion which represents the growing interest in developing contemporary architecture in Wales. The Design Commission for Wales’ continuing support of architecture at the Eisteddfod is to be commended and the development within this section proves how valuable is this support.

I would like to thank all the selectors for their hard work and co-operation.

Thank you to:

The James Pantyfedwen Foundation for the £5,000 prize money awarded to the winner of the Gold Medal for Fine Art.

Arts Council Wales for their financial support of the special project, BAN and for making the technical equipment available to us; and especially their general support of Y Lle Celf and the fantastic work done at the National Eisteddfod to recognise the visual arts; craft and design and architecture in Wales.

Robyn Tomos for his support and patience in facilitating the organisational arrangements; to the technical crew; and particularly to Paul Emmanuel for his technical management expertise in setting up BAN.

Thank you to all the committee members for participating in our lively and highly creative meetings! As Chair, I have thoroughly enjoyed your company and inspired contributions.

Foxy’s, Penarth for giving us use of the venue and free cups of coffee.

Mari Beynon Owen

Chair

Visual Arts Sub-committee

Yn aml, mater o chwarae â rhifau yw hi i Gyngor Celfyddydau Cymru

Rydym yn dilyn trywydd canrannau cyfnewidiol y bobl sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau a mynychwyr digwyddiadau celfyddydol. Mae ar lywodraethau angen gweld sut mae pobl yn rhoi gwerth ar y celfyddydau a ffigurau noeth yw un o'r ffyrdd amlwg o wneud hyn. Da o beth yw'r duedd ddirnadwy yn y Gymru ddatganoledig fod nifer y bobl sy'n mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt wedi tyfu. Hefyd, mae tystiolaeth sylweddol yn y Gymru Gymraeg sy'n awgrymu bod siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg ymhlith y rheiny sy'n fwyaf tebygol o fynychu digwyddiadau celfyddydol a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mae'n ymddangos fod Cymru amlieithog, gyda'i hymdeimlad cryf o ddiwylliant yn yr iaith, yn benderfynol o herio pwysau'r dirwasgiad. Yn hytrach, gwelwn ymhyfrydwch yn yr hyn y gall y celfyddydau ei ddwyn i ansawdd ein bywyd, fel ffordd o ddathlu a thrwy archwilio potensial y dychymyg i newid meddwl ac i amgyffred y byd o'n cwmpas yn wahanol.

Ond mae'r beirniaid sy'n ystyried y celfyddydau'n gadwedig ar ryw uchelfan freintiedig, yn troi eu trwynau ar chwarae â rhifau...ystyrir rhywsut bod y celfyddydau ac apêl dorfol yn anghydnaws. Ond mae rhywbeth ar droed yma yng Nghymru, ffenomena sy'n gwrthsefyll y syniadau diog a hen ffasiwn am amgyffrediad o elitaeth y celfyddydau.

Yn Y Lle Celf y llynedd yn Wrecsam, cyflawnodd Bedwyr Williams gamp unigryw. Trwy ennill Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain, Gwobr Ifor Davies a gwobr Dewis y Bobl ar yr un pryd, dangosodd Bedwyr apêl feirniadol a phoblogaidd. Rydym yn gobeithio y gall Bedwyr drosglwyddo hynny i faes rhyngwladol Biennale mawreddog Fenis y flwyddyn nesaf. Gwelodd Tim Davies, enillydd arall Y Fedal Aur yn yr Eisteddfod, 30,000 o ymwelwyr yn cael eu denu i'w arddangosfa yn Fenis yn 2011. Bu i lawer o bobl ymadael â Fenis y flwyddyn honno wedi darganfod llais artistig nerthol a chyffrous o Gymru. Rydym yn hyderus y bydd Bedwyr Williams yn adeiladu ar y llwyddiant hwn.

Mae 43% o'r arddangoswyr eleni yn newydd, y nifer uchaf eto (19 o 44 o artistiaid). Mae angen dadansoddi hyn. Ond mae'n awgrymu bod mwy o artistiaid yn ystyried bod yr arddangosfa yn gyflwyniad gwych i gyhoedd Cymru a bod mwy o artistiaid yn mynd ati i ymsefydlu eu gyrfaeod yng Nghymru. Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf

yn holl bwysig, i'r patrwm hwn o weithgarwch ac i iechyd ein cyfalaf diwylliannol a chreadigol. Mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru fwrw golwg ar yr amgylchiadau sy'n meithrin yr amgylchedd creadigol cywir, sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i artistiaid yn gynnar yn ystod eu gyrfa. Ond mae angen i Addysg Uwch chwarae ei rhan hefyd, nid wrth chwarae â rhifau, ond yn ansawdd profiad y myfyriwr ac, at ei gilydd ar draws Cymru, yn yr ymagwedd gyflenwol at ddatblygu arbenigedd a rhagoriaeth.

Gan ddychwelyd at y profiad o'r celfyddydau yn ôl rhif... roedd *Passion National Theatre Wales* ym Mhort Talbot flwyddyn yn ôl yn brofiad o gelf a realiti llwyr gynhwysol. I lawer, hyd at 15,000 ar y Traeth ar y trydydd diwrnod, bu'n daith bersonol ysgubol. Ac yn haf yr Olympiad Diwylliannol eleni, ochr yn ochr â digwyddiadau gafaelgar fel prosiect *Crochan a Ffwrnais*, cawsom *Adain Avion*. Gyda'i phedair taith epig a ddechreuodd yn Abertawe, cyn symud i Lyn Ebwy, yna ymlaen i Landudno, mae bellach yn cyrraedd y Maes, gyda cham olaf i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Yno, bydd yn adneuo ei 'blwch du', ei chofnod o'i hehediad (artistig) o 30,000 o ymwelwyr a gwaith cymunedau a 50 o artistiaid cyfoes mewn 150 o ddigwyddiadau cysylltiedig, yn cynnwys 65 o grwpiau cymunedol a thros 2,000 o bobl yn cymryd rhan ynddynt. Cyd-ddigwyddiad yw bod enillydd Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain eleni, Carwyn Evans, ymhlith y rheiny sy'n rhan o *Adain Avion* ar y promenâd yn Llandudno.

Ac yn olaf, i'r Lle Celf ei hun, ac un o'r rhesymau parhaus pam mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymwneud â'r arddangosfa – y 40,000 o bobl y disgwylir iddynt ymweld yn ystod yr wythnos. Eleni, rydym yn ehangu'r gynulleidfa honno drwy'r posibiliadau y mae technoleg ddigidol newydd yn eu cynnig, wrth i ni geisio dal dehongliadau pobl ifanc o'r hyn sydd o ddiddordeb iddynt yn y gwaith celf sy'n cael ei arddangos.

Dyna fusnes Cyngor Celfyddydau Cymru, nid dim ond chwarae â rhifau, ond paru'r rhifau â phrofiadau eithriadol, llawn dychymyg.

David Alston

Cyfarwyddwr (Y Celfyddydau),
Cyngor Celfyddydau Cymru

Often an Arts Council needs to play the numbers game

We track the shifting percentages of attendees and participants. Governments need to see how people value the arts and bald numbers are obvious ways this can be done. Happily in devolved Wales it is a perceptible trend that the number of people enjoying and taking part in the arts has grown. There is also significant evidence in Welsh speaking Wales which suggests that Welsh speakers and learners are amongst those most likely to attend and participate in the arts. Multilingual Wales, with its strong sense of culture in the language, seems determined to defy recessionary pressures. Instead we are seeing a relishing of what the arts can bring to our quality of life both by way of celebration and by exploring the potential of the imagination to change minds and look differently at the world around us.

But the critics who see the arts as preserved in some position of special privilege, turn their noses up at the numbers game...art and mass appeal are somehow seen as unhappy bedfellows. But there are things afoot here in Wales, phenomena which counteract the lazy and out of date ideas of arts' perceived elitism.

Bedwyr Williams at last year's Y Lle Celf achieved an unique triple. By simultaneously winning the Gold Medal for Fine Art, the Ivor Davies Award and the People's Choice, Bedwyr demonstrated critical and popular appeal. We hope Bedwyr can take that into the international arena of the prestigious Venice Biennale next year. Tim Davies another Gold Medal winner, saw his Venice exhibition in 2011 attract 30,000 visitors. Many left Venice having made a powerful and moving discovery of an artistic voice from Wales. We're confident that Bedwyr Williams will build on this success.

This year's exhibition has a record 43% of new exhibitors (19 out of 44 artists). This needs analysing. It suggests that more artists are seeing the exhibition as an excellent introduction to the Welsh public and are seeking to ground their careers in Wales. These next few years will be critical, both for this pattern of activity and for the health of our cultural and creative capital. An Arts Council needs to be looking at the circumstances that foster the right creative environment, offering the best possibilities to artists in their early career.

But Higher Education also needs to play its part, not in a numbers game, but in the quality of student experience and, across Wales, in the complementary approach to developing specialisms and excellence.

To return to experience of the arts in numbers... National Theatre Wales' *Passion* in Port Talbot a year ago was an experience of art and reality which was totally involving. For many, up to 15,000 on the Beach on the third day, it was an overwhelming personal journey. And this Cultural Olympiad summer, alongside engaging events such as *Cauldrons and Furnaces*, we have had *Adain Avion*. With its four epic journeys starting in Swansea, moving to Ebbw Vale then onto Llandudno, it now arrives at the Maes with a final leg to St Fagans: National History Museum. There it will deposit its black box, its (artistic) flight recorder of 30,000 visitors and the work of communities and 50 contemporary artists in 150 allied events, involving 65 community groups and over 2,000 participants. And fortuitously, this year's Gold Medal for Fine Art winner, Carwyn Evans, is in the mix as part of *Adain Avion* on the prom at Llandudno.

And finally to Y Lle Celf and one of the enduring reasons for the Arts Council of Wales' involvement with the exhibition - the anticipated 40,000 visitors over the week. This year we are extending that audience through the possibilities that new digital technology offers, allowing us to reach even more, as we seek to capture young people's interpretations of what interests them in the art exhibited.

That's the business of an Arts Council, not just the numbers game, but the equation of numbers matched to extraordinary imaginative experiences.

David Alston
Director (Arts),
Arts Council of Wales

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

Sean Edwards

Fel ymarferydd, yr hyn sydd bob amser yn fy nghyffroi am Arddangosfa Agored yr Eisteddfod Genedlaethol yw, yn ogystal ag amlygu'r artistiaid mwy cyfarwydd, gall yn aml fod yn llwyfan i ddarganfod rhai llai cyfarwydd, ond nid llai cyffrous, sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae'r amrywiaeth ar draws ystod o lefelau ymarfer yn ei gwneud yn wirioneddol 'agored' i'r artistiaid ac, yn fwyaf pwysig, i'r gynulleidfa. Mae'r arddangosfa agored flynyddol hon yn gallu arddangos hyd a lled yr ymarfer celf a gynhrychir yng Nghymru, a hefyd y tu hwnt i Gymru. Mae cymysgedd cyfoethog o arddulliau, themâu a disgyblaethau yn swatio nesaf at ei gilydd. Mae rhai yn fwy traddodiadol yn eu harddull a'u cynnwys nag eraill, ond mae pob un yn dal ei dir mewn arddangosfa all gynnwys gwaith gan 40 a rhagor o artistiaid. Mae ei natur agored ac anffurfiol, heb awgrym o unrhyw ymhonni, mawdra neu snobyddiaeth y byd celf, yn dangos cynhesrwydd tuag at y cyfoeth o waith celf. Nid oedd eleni yn eithriad, a'r afiaith hwn a deimlwyd yn ystod y broses ddehol o blaid celf a gynhrychwyd yng Nghymru, neu yn wir gan artistiaid Cymreig, sydd gobeithio wedi amlygu ei hun yn ein detholiad ac o ganlyniad yn yr arddangosfa.

Afraid yw dweud, cafwyd ystod eang o gyflwyniadau ar draws yr holl ddisgyblaethau y gellid ei ddisgrifio'n fras fel 'celf weledol'. Roeddwn yn falch gweld o fewn y disgyblaethau bod nifer o gyflwyniadau o safon uchel. Roeddwn yn arbennig o fodlon â'r enghreifftiau o ddelweddau symudol a gyflwynwyd, cyfrwng a all fod, yn ôl ei natur, yn anodd ei gyflwyno a'i ddehol o fewn arddangosfa agored. I ddechrau gall detholwyr ond gweld tri munud yn unig o beth all efallai fod yn ffilm deg neu ugain munud neu hyd yn oed yn ffilm fawr. Y penbleth i'r artist yw beth i'w cynnig. A ydych yn dewis haen gryfaf y gwaith ac yn ei gwtogi fel ei fod yn detholiad clir sy'n sefyll ohono'i hun, neu a ydych efallai yn golygu peth o'r adrannau cryfaf i fod yn un darn? Efallai y byddwch yn dangos y gwaith o'r dechrau gan ei dorri yn sydyn ar ôl tri munud? Y dewis olaf hwnnw a wnaed gan Michael



Di-deitl 2010 / Untitled 2010

Jo Berry

Cousin ar gyfer ei waith *Siwrnai trên* a, boed yn fwriadol ai peidio, yr oedd yn ddewis golygu gwych. Erbyn yr amser i'r toriad ddod ar bwynt allweddol yn y stori a droslaisiwyd am ymgais fer, a rhywfodd trychinebus, am fam-gu ym myd actio sinematig roeddem eisoes wedi ein cyfareddu ac yn gwybod bod rhaid i ni weld rhagor. Dyna yw grym adrodd stori, rhywbeth a ddefnyddir gan Michael Cousin yn fynych drwy gydol ei waith, yn pigo a phrocio digwyddiadau go iawn gan ychwanegu ei storïau ei hun atynt. Wrth edrych ar fersiwn llawn *Siwrnai trên* rai misoedd yn ddiweddarach daeth yn fwy grymus fyth ac roeddem yn gwybod bod yn rhaid i ni ei gynnwys yn ein detholiad.

Mae'r syniad o adrodd stori a naratifau, boed eu bod am ddigwyddiadau go iawn, yn ffuglen neu'n adegau o gymylu rhyfedd rhwng y ddau, yn rhywbeth oedd yn amlygu'n gyflym ar draws nifer o'r cynrychioliadau tafluniol digidol y gwaith yr edrychwyd arno. Wrth arafu'r broses tuag at gamau olaf y dethol daeth hyn yn rhywbeth y cawsom ein denu ato. Roedd paentiadau ffotorealaid godidog Jo Berry yn un enghraifft o hyn. Gan ddangos darnau byr o eiliadau sy'n ymddangos yn hawdd i'w hadnabod o ffilmiau neu deledu, mae gan y gweithiau ansawdd breuddwydiol hynod, gyda'r cymylu a'r torri yn llwyddo i wthio'r delweddau ychydig i ffwrdd o ffuglen y gellir ei hadnabod, gan greu dryswch lletchwith. Yn yr un modd mae paentiadau tirwedd James



Siwrnai trên / Train journey (delwedd lonydd / still image)

Michael Cousin

Moore yn defnyddio ffotorealaeth a dyfeisiau cyfansoddiadol a fenthycwyd o waith dogfen ffotograffau i roi i ni fersiynau pendant o ofodau a wnaed yn ffuglen. A ydynt yn barthau rhyfel real neu'n wersylloedd hyfforddi? O ddysgu eu bod rhywle yn y canol, wedi eu codi'n rhannol o ddelweddau gemau cyfrifiadur, mae'r delweddau yn mynd hyd yn oed yn fwy digalon ac yn wag o bresenoldeb dynol.

Mae tirwedd a sut y gweithredwn o'i fewn yn aml yn ganolog i lawer o'r ymarfer amrywiol yng Nghymru, boed hynny'n cael ei wneud yn amlwg iawn drwy ei gyflwyniad neu efallai yn fwy cynnil, barddonol a haniaethol drwy olion. Mae fideo HD hardd Peter Bobby, *Llen*, yn fonocrom hudol o len theatr yn agor a chau sy'n dangos tirwedd newidiol o afon brysur tra ar yr un pryd mae'n gweithio fel trosiad am y llanw sydd mor hollbwysig i allu'r afon i gynnal y

ddinas borthladd sydd y tu ôl iddi. Rhoddir dulliau eraill o ymdrin â'r dirwedd gan enwau cyfarwydd megis Brendan Stuart Burns, enillydd Y Fedal Aur ddwywaith, y mae ei weithiau graddfa fawr yn cyfleu bywiogrwydd a hyfrydwch tirwedd Sir Benfro, tra bod haniaethau graffeg morlun Y Barri gan Tom Pitt yn ymddangos yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Fel yn fideo Peter Bobby a darlun Brendan Stuart Burns, mae'n gwbl amlwg i Tom Pitt bod mater y testun yn drosiad am y broses sy'n digwydd ar wyneb y gwaith.

Mae Arddangosfa Agored yr Eisteddfod yn gystadleuaceth ac, er mor anodd ydyw, ein tasg ni yw dyfarnu'r gwobrau. Fel derbynnydd blaenorol yr Ysgoloriaeth Artist Ifanc, yr wyf yn hollol ymwybodol o'r manteision y gall gwobr o'r fath ei rhoi. Daethom i benderfyniad yn eithaf cyflym am enillydd eleni, sef Laura

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

Reeves, a ddangosodd drwy bortffolio aeddfed cryf beth ellir ei gyflawni ar y cam cynnar hwn mewn gyrfa. Ar y llaw arall, treuliasom lawer o amser a chafwyd trafodaethau hir cyn dyfarnu'r medalau aur eleni. Treuliwyd amser ym mhresenoldeb y gweithiau, oherwydd ni all dim ddisodli'r teimlad corfforol o sefyll o flaen paentiad, sefyll yng nghanol cerfluniau neu weld y fideo yn ei gyfanrwydd. Yn y ddau gategori hyn roedd yn benderfyniad anodd gan fod pob un o'r artistiaid ar y rhestr fer wedi cyflwyno gweithiau nodedig y gellir eu gweld fel rhai yn nodi munud arwyddocaol yn eu hymarfer. Ond roedd yn rhaid dod i benderfyniad terfynol a gyda chymorth cloc oedd yn tician Robyn Tomos, Swyddog Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod, penderfynwyd yn sgil y fath gorff o waith sylweddol, yn meddu ar fwriad mor gryf, y dylai'r Fedal Aur am Gelfyddyd Gain a'r wobwr ariannol lawn gael eu dyfarnu'n llwyr i Carwyn Evans. Gwnaed penderfyniad tebyg gyda'r Fedal Aur am Grefft a Dylunio gan ddyfarnu'r clod ynghyd â'r wobwr ariannol lawn i Anne Gibbs. Digon yw dweud bod ei gweithiau cerfluniol brau yn dal i beri cryn chwilfrydedd i mi, oherwydd rhwyddineb a chynildeb y trefniadau cyfansoddol o'r elfennau a wnaed ac a ddarganfyddwyd, i gyd wedi eu hysbrydoli gan y dirwedd leol. Edrychaf ymlaen at weld gosodiad llawn *Am gael bod rhywle arall* yn arddangosfa eleni.

Fel ei gyd-artistiaid ar y rhestr fer, mae cyfres gweithiau Carwyn Evans yn nodi symudiad sylweddol yn ymarfer diweddar yr artist tra'n cydio'n dynn wrth ei faterion craidd. Mae tirwedd ddiwylliannol, wledig ac amaethyddol yr artist a hanes ei deulu o'i fewn yn allweddol. Gyda dealltwriaeth o ystyr cysyniadol a barddonol cynhenid defnyddiau mae Carwyn Evans yn gallu defnyddio coed, efydd, cynffonau wŷn a cerameg gyda thuedd minimalaidd crefftus. Nid yw byth yn colli cyffyrddiad yr artist. Wrth sefyll ymhlith y gweithiau dewch yn ymwybodol o broses a sgil ffabrigeddio, pwysigrwydd barddonol nodau syml a haniaethol peiriannau a'r bywyd amaethyddol. Ond fel gyda phob celf wych,



John Thomas
Anthony Rhys

crefft Carwyn Evans yw creu gwaith sy'n gallu codi'n uwch nag un set o ystyrion, gan ei agor allan i'n cwmpasu ni i gyd. Nid dyma'r tro cyntaf i'r artist wneud cyfraniad sylweddol i gelfyddyd yn yr Eisteddfod ac rwy'n siŵr nad hwn fydd y tro olaf.

Bob blwyddyn fe fydd o leiaf un, os nad pob un, o ddatganiadau'r detholwyr yn cyfeirio at sut y bu'n flwyddyn eithriadol am gynigion. Nid oedd eleni yn wahanol. Bydd graddedigion ac artistiaid sy'n amlygu yn dod i gyfarfyddiad â'r rhai mwy profiadol, y gall rhai ohonynt efallai fod wedi bod yn diwtoriaid i'r artistiaid newydd, dyna yw natur Arddangosfa Agored yr Eisteddfod. Bu'n rhaid gwneud llawer o benderfyniadau anodd dros gyfnod o chwe mis bron (yn ystod pa un y gwelsom ychwanegu pedwerydd detholwr - llongyfarchiadau i Laura Thomas). Pe baem wedi cael pafiliwn ddwywaith y maint, nid wyf yn amau y byddai'r gwaith a ddedholwyd yr un mor gryf, dyna pa mor dda oedd ansawdd y cyflwyniadau. O roi cynnig arni nid wyf yn eiddigeddus o dasg



Rhodfa serth / Steep drive
Tom Pitt

detholwyr y dyfodol. Mae'n anffodus bod llawer o weithiau da ddim yn llwyddo i gyrraedd y detholiad terfynol ac fel rhywun sydd wedi derbyn llawer llythyr gwrthod drwy'r drws rwy'n gwybod pa mor siomedig y gall hynny fod. Yr unig beth allaf ei ddweud yw os gwnaethoch gynnig ond na chawsoch eich dethol y tro hwn; cynigiwch, cynigiwch a chynigiwch eto.

Declan McGonagle

Mae'n ddiddorol bod teitl yr arddangosfa hon wedi ei newid yn 2004, o Arddangosfa Celf a Chrefft i Arddangosfa Celfyddydau Gweledol. Mae'n ymddangos yn newid digon syml ond y tu ôl i bob gair ceir syniadau ac yma, syniadau ynglŷn â natur, ffurf a diben celf a chrefft a'u harddangos a thu ôl i hynny, syniadau am ddealltwriaethau gweledol a llythrennedd gweledol. Roedd y newid yn cydnabod bod angen meddwl yn wahanol ynglŷn ag enwi arddangosfa sydd mor eang ei rychwant yng nghyd-destun agoredrwydd cynyddol arfer a'r ffyrdd yr oedd artistiaid a gwneuthurwyr yn croesi ffiniau yn eu gwaith. Mae mwy o angen

fyth am hyn nawr, yn yr oes wybodaeth a digidol, os yw unrhyw feirniadu a dethol gweithiau a gyflwynir ar gyfer arddangosfa mor allweddol, i adlewyrchu deinameg gweithgarwch creadigol sy'n ymddangos rhwng ac ar draws disgyblaethau. Gall cynnig o'r fath, wrth gwrs, wneud i'r rheiny sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n deyrngar i ddisgyblaethau penodol deimlo'n bryderus bod eu disgyblaeth, neu setiau sgiliau eu disgyblaeth, wedi eu hanghofio neu ddim yn cael ei gwobrwyo. Eto, mae hyn yn ymwneud yn unig â chydabod a gwobrwyo gweithiau nad sydd efallai'n gaeth wrth ddisgyblaeth ond sydd, o ran ffurf a chyd-destun, yn bodoli rhwng disgyblaethau celf a chrefft a etifeddwyd a'r hyn y mae'r termau hynny wedi golygu hyd yma a beth allant olygu yn y presennol a'r dyfodol. Yn fy marn i, fodd bynnag, ni ellir cael gwaith rhyng-ddisgyblaeth na thraws-ddisgyblaeth ystyrllon heb gael disgyblaethau ystyrllon cadarn. Mae'r ddeinameg sydd ei hangen i roi bywyd parhaus yn y broses gelfyddydol yn bodoli hefyd yn y rhyngweithio y gellir ei drafod ac yn y berthynas rhwng disgyblaethau ac yn eu croesi traws-ffiniol rheolaidd, boed hynny yng nghyd-destun traddodiadau Celfyddyd Gain neu Grefftau. Crynhowyd a chanol-bwyntiwyd y ddeinameg honno yn y detholiad o weithiau ar gyfer yr arddangosfa derfynol. Pwyswyd a mesur, fel sy'n rhaid ei wneud, ar sail deall bwriad yr artist ac i ba raddau y gwnaeth dealltwriaeth a defnydd yr artist o broses, defnyddiau a thraddodiad fodloni, neu y tybiwyd iddynt ragori ar y bwriad hwnnw.

Enghraifft ddiddorol a chynrychioliadol o hyn yw André Stitt, artist sydd ag enw da ac sy'n uchel ei fri, sy'n gweithio mewn prosesau perfformio, cyfryngau a rhai seiliedig ar amser. Cyflwynodd André Stitt gyfres o baentiadau grymus sy'n dangos dealltwriaeth lwyr o brosesau anffigurool, maes lliw a ffigur a thir. Mae dulliau sy'n ateb y diben, o ran paentio ystumiol, lle mae graddfa llwyredd cyffredinol yn codi materion tebyg am ffigur y gwylwr / yr un sydd ddim yn artist, a sail y gwaith celf, fel ag y gwna perfformiad. Gellid dweud bod paentio yn y cyd-destun hwn - a gyda'r graddau

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

hyn o agosatrwydd - yn gofnod neu'n ddargopiau o weithredoedd sy'n digwydd ac felly sydd ddim yn syrthio i fagl pastiche 'Paentiad Gweithredol'. Mae ffigur a thir a chynnwys y gwyliwr yn fater sydd i'w weld hefyd yn nelweddau ffotograffig 'golau mewn tirwedd' graddfa fawr Alison Dalwood, gyda'u gorffeniad adlewyrchol iawn. Mae'n amhosibl peidio â chael eich cynnwys ym maes gweledol y gwaith, sydd hefyd yn wir am y bensaerniaeth y'i cyflwynir ynddo. Mewn rhyw ystyr, fel gyda phob celf ddiddorol mae'r gwyliwr yn cwblhau'r gwaith, hyd yn oed, fel yn yr achos hwn, pan fo'i wrthrychedd yn llonydd ac mae'r byd o'i gwmpas sy'n newid, waeth pa mor fach, wrth i ddelweddau ddod i mewn a gadael maes gwelediad y gwaith.

Mae Anthony Rhys, ar raddfa arall, yn chwarae gyda theimlad o draddodiadau cymdeithasol a chelfyddydol a gyda'r syniad o fod dan orthrwm y traddodiadau hynny. Mae ei baentiadau bychan yn ffigurau 'hanesyddol' mewn sawl osgo anhyblyg a sefydlog - yn syth o darddiad ffotograffiaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg - yn cael eu darlunio naill ai'n chwerthin yn afreolus neu'n crio ond eto'n cynnal osgo anhyblyg y ffotograff teuluol. Mae fel petai pwysau hanes a thraddodiad a chadw at gonfensiwn yn ormod i'w oddef heb golli eich pwyll. Mae'r gweithiau hyn yn croesi confensiynau paentio a ffotograffiaeth ac yn cynrychioli ymwybyddiaeth yr artist o draddodiad disgyblaeth ond, yn hollbwysig, maent yn torri ar y disgwyliadau drwy un newid syml ond pwerus yn y realiti a ddarlunnir.

Fel yn Iwerddon, mae'r tir a'r syniad o dirwedd yng Nghymru yn ffactor gyflyrol na ellir ei hosgoi, o ran trefniant y gymdeithas ddynol a'r economi a hefyd o ran ein dealltwriaeth o'n safle dynol ym myd natur. Nid yw'n syndod, felly, y deallir tir a thirwedd - sydd ddim ond yn golygu tir dan awdurdod dyn - fel gwirionedd grymus a throsiad pwerus, sy'n codi'n rheolaidd mewn gwaith artistiaid, waeth pa ffurfiau neu fformatau a ddefnyddir. Mae gwaith Angharad Pearce Jones, sef cerfluniau bychanig bron, hudol a rhyfedd, yn defnyddio haearn, llwch a phren - deunyddiau sylfaenol bywyd -



Morglawdd, Aberddawan / Sea wall, Aberthaw

Tom Pitt

i ymgorffori, yn hytrach na chynrychioli, y dirwedd naturiol fel elfen hanfodol, sydd mor bwysig fel bod yn rhaid ei warchod dan wydr. Yn ffotograff Timothy Nordhoff o ucheldir llwm fel tirlun diffaith, y syndod yn y canfyddiad yw gweld tebygiad o gar o waith dyn, yn union yn y blaendir. Mae'n tylino ein disgwyliadau gyda'r ddelwedd o 'dirwedd unig' ac ar yr un pryd mae'n chwalu cynefindra drwy ddangos yr arteffact hurt o waith dyn - os nad yn waith celf ynddo'i hun - yn union yng nghanol y llun. Drysir y cywair ac fe'n gadewir â dirgelwch yn hytrach na datrysiaid. Mae anghytgord, neu bethau sydd ddim yn ffitio'n union, gyda'i gilydd nac mewn cyd-destun, yn tanategu agwedd ffres Carwyn Evans tuag at ddeunydd, ffurf ac ystyr yn ei ddarnau cerflun / gwaith gosod. Tra'n ymddangos yn hunanfeddiannol a phenderfynol, ar yr olwg gyntaf, mae'r corff hwn o waith yn eich herio i "deimlo yn hytrach na dehongli", fel y dywed yr artist ei hun. Mae'n gweithio gyda deunyddiau a gyda phrosesau sydd eisoes yn gyforiog ac sy'n cludo ystyr a gofynna'r artist i'r gwyliwr ddadlennu ei ddealltwriaeth ei hun trwy ei brofiad. Canlyniad profiad yw ei waith nid yn rhywbeth i'w ddisgrifio.

Mae amser, sy'n rhan annatod o drafod ystyr ym mhob profiad celf, yn fy marn i yn ganolog i *Llen* Peter Bobby - darn mewn fideo HD sy'n dangos llenni coch enfawr yn cau ac yn agor ar ochr awdudoriwm. Mae'r olygfa a geir y tu hwnt i'r llenni, a guddir ac a ddatgelir, yn un o ddinas ar waith. Mae *Llen* yn llwyddiannus



Docio (manyllyn / detail)

Carwyn Evans

oherwydd ceir ynddo dealltwriaeth yr artist ei hun o'r canon y mae'n cysylltu ei waith a'i gyfeiriadau ag ef - y llygad ffotograffig a'r dehongliad o'r cyd-destun cymdeithasol ym mha un y mae ei brofiad bywyd ef a ninnau, fel artist a rhywun nad sy'n artist, yn digwydd. Mae'r ffocws a ddatgelir o'r trefol yn cludo ein holl ddealltwriaeth ni o newid dramatig yn natur a diben gofod trefol, o fewn cof - wedi ei gyflwyno, ar y cyd, yn weithred o gau ac agor. Mae'r artist yn gadael i chi benderfynu hanfod gwerth.

Nid yw'n bosibl yma fel detholwr i restru'r holl resymau dros bob dewis, dewis a wnaed beth bynnag ar y cyd dros gyfnod ac nid dim ond yn unigol. Bwriedir i'r cyfeiriadau a wneir gennyf uchod fod yn ddangosol o'r broses gyfan ac nid dim ond dyrchafu rhai artistiaid a gweithiau

uwchlaw eraill. Serch hynny, bu'n arbennig o ddiddorol a defnyddiol i mi i arsylwi ar rywbeth y gellir ei adnabod yn y gynrychiolaeth hon o arfer yng Nghymru. Hynny yw, gwrthod bod dan orthrwm traddodiad tra hefyd ar yr un pryd bod yn llwyr ymwybodol o werth a hefyd gyfyngiadau traddodiad, wrth borthi'r presennol a chynorthwyo artistiaid a chymdeithas i ffurfio'r dyfodol. Mae gwaith Roger Lougher, sy'n ymddangos ei fod yn atgynhyrchiad difflach o arwydd Iechyd a Diogelwch, yn ymwneud â rhyw fath o droi'r cyffredin yn farddoniaeth mewn gwrthdrawiad o ystyron sy'n gweddnewid ein syniad o bethau pob dydd.

Er nad cyfrifoldeb yr artist yn unig yw hyn, mae'n amlwg na all y traddodiadol na'r syniadau bob dydd ynglŷn ag offeryn dominyddol gwleidyddiaeth neu economeg greu'r 'gymdeithas nesaf' heb fewnbwn sylweddol diwylliant a'r celfyddydau. Mae'n werth cofio mai'r economi sydd wedi methu yn y cyfnod hwn, nid y diwylliant ac nid y 'gweledol', yn ei ystyr ehangaf. Mae'r Eisteddfod a'r arddangosfa hon yn adlewyrchu'r gwirionedd hwnnw.

Laura Thomas

Mae'r gwahoddiad i fod yn un o ddetholwyr Arddangosfa Agored Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn anrhydedd gwirioneddol ac yn un a wnaeth i mi deimlo'n wylaidd ond roeddwn, serch hynny, wrth fy modd i'w dderbyn. Mae hwn yn ddigwyddiad mawr yng nghalendr artistig Cymru ac yn un sy'n denu llawer iawn o drafodaeth fywiog am y gweithiau a ddetholir.

Fel artist a dylunydd tecstilau a adeileidir, y cyflwyniadau Crefft a Dylunio oedd i fod yn ganolbwynt sylw arbennig i mi. Rwy'n amharod i ddatgan yr amlwg, ond nid yw'r gwaith o ddethol yn hawdd o gwbl, yn arbennig pan fo'r ymgeiswyr yn gymheiriaid a chydweithwyr yr wyf yn eu hedmygu ym maes crefft a dylunio yng Nghymru. Er bod edrych ar y cannoedd o ddelweddau a ffilmiau a gyflwynir yn digwydd yn ddiennw, mae arddull weledol digyffelyb llawer yn golygu bod y gwaith yn aml yn bosibl ei briodoli'n hawdd. Serch hynny, gan fod pob un ohonom fel detholwyr yn dod o bersbectif

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

gwahanol iawn, anaml y byddai'r tri ohonom yn adnabod awdur gwaith yn gyflym, gan olygu pan ddigwyddai anghytundeb gallai trafodaeth ddilynol gael ei llywio gan amrywiaeth o safbwyntiau.

Mae'n werth nodi yma pa mor anodd yw gwneud penderfyniadau am waith heb ei weld yn y cnauld. Roedd y broses ddethol drwy edrych ar ddelweddau tafluniad PowerPoint yn peri cryn benbleth. Gall gwaith seiliedig ar y lens gael ei ddeall yn hawdd a'i feirniadu yn y cyd-destun hwnnw ond gall cyffyrddiadau arwyneb wedi'i baentio, ffurf tri dimensiwn neu osodiad synhwyrdd gael ei golli gan na chynlluniwyd i'r gwaith gael ei weld yn y ffurf dafluniol hon. Yn wir, mae angen i artistiaid a gwneuthurwyr edrych yn wrthrychol iawn ar y delweddau a gyflwynwyd ganddynt a gofyn i'w hunain a yw'r rhai sy'n anghyfarwydd â realaeth eu gwaith yn deall yn iawn ei effaith wirioneddol a'i fater. Roedd sawl enghraifft o waith lle cawsom ein drysu'n llwyr gan yr hyn a welsom ar y sgrîn ond roeddem yn holi a fyddai'r effaith yn y cnauld yn debyg. Gwnaeth rhai gweithiau o'r fath ni yn ddigon hyderus i fentro ac eraill i ni betruso.

Felly, mae fy nghydymdeimlad â rôl y detholwr wedi ei gadarnhau gan fod yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau terfynol anodd iawn. Gallen yn hawdd fod wedi dweud 'ie' i lawer iawn rhagor o weithiau ardderchog ond roedd yr angen i ddi-doli a chyfyngiadau gofod yn amhosibl i'w hosgoi. Ar flaen ein meddwl oedd bod yn rhaid i'r gweithiau a ddetholwyd gael digon o le i anadlu yn y pafiliwn fel eu bod yn gallu cael eu hedmygu, eu dathlu a'u pwysu a'u mesur yn hawdd. Hefyd, er nad yw ein rôl ni yn un curadurol, roedd hi'n amlwg bod angen i ni ddewis gweithiau a fyddai'n creu arddangosfa sy'n rhoi trosolwg ystyrion ar yr amrywiaeth o waith a wneir yng Nghymru a gan artistiaid o Gymru mewn manau eraill o ran cyfrwng, estheteg a dull cysyniadol.

Er i ni gael trafodaeth ddi-flewyn ar dafod, bu'n syndod i mi sut y bu i'm cyd-ddetholwyr a minnau gydweld ar lawer o'r penderfyniadau. Ar gyfer enillwyr y medalau daethom i



Tirlun y torrwr 1 / Disc cutter landscape 1
Angharad Pearce Jones

gytundeb hawdd ar yr artistiaid ar gyfer y rhestr fer, a oedd i gyd o safon mor uchel ac yn dod i'r brig o'r tro cyntaf i ni weld eu gwaith. Roedd hi'n gryn demtasiwn i rannu rhyngddynt, ond ar ôl cryn ystyried penderfynwyd ein bod am wneud y penderfyniad anodd iawn, sef ymateb i'r her a dewis un enillydd i bob categori. Wrth wneud hyn rydym yn gwneud datganiad dewr drwy dathlu'r eithriadol yn herfeiddiol.

Yn fy marn i mae'r ddau, Carwyn Evans enillydd Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain ac Anne Gibbs enillydd Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio, yn dangos dull mor ddeallus a sensitif i wneuthur fel fy mod yn teimlo bod eu gwaith yn gyfareddu llwyr. Ceir yma chwilfrydedd clir am ddefnydd, iaith weledol huawdl a chreffftwaith di-ffael.



Am gael bod rhywle arall (byr o wynt) /
To be elsewhere (breathless)

Anne Gibbs

Bu'n bleser i weld eu gwaith amrywiol ac amlochrog yn datblygu dros y blynyddoedd mewn sawl arddangosfa nodedig, yn cynnwys Y Lle Celf, ac mae dyfarnu'r Medalau Aur a'r gwobrau ariannol iddynt yn gwbl briodol.

Mae cerameg osgeiddig Anne Gibbs a'i chyfosodiadau cyfryngau a ddarganfyddwyd yn dangos rhwyddineb sydd i fod yn eiddigeddus yn ei gylich am gyfansoddi, lliw a mireinio iaith weledol. Gwreiddiwyd ei gwaith mewn sylwi ar y byd naturiol, gyda llygad doeth am ddathlu mân bethau naturiol a ddiystyriwyd. Gan gyfeiriadu'r syniad o gasglu, boed yn y cartref neu'n academaidd, trefnir gwrthrychau hynod a daflwyd ac a ddarganfyddwyd yn grwpiau. Yn wir, nid oedd dysgu am hyfforddiant gwreiddiol Anne Gibbs mewn gwneud printiadau yn syndod gan fod ei gwaith yn 'siarad' fel paentiadau haniaethol tri dimensiwn. Mae'r llwyth o binnau gwneuthurwyr gwisgoedd wedi eu rhuddo yn farciau siarcol a ddiriaethir. Mae'r gwrthrychau naturiol cast mewn porslen pŵl yn gwrthgyferbynnu'n hardd â gwydreddau ceramig dewisol sy'n debyg i glytwaith neu baentiadau a gyfansoddwyd o sawl cyfrwng. Mae'r cyfosodiadau hyn a ystyriwyd yn ofalus o ansodau siâp, lliw ac arwyneb yn ennyn ein chwilfrydedd ac yn gwneud i'n calon ddawnsio ar yr un pryd; enillydd teilwng a gobeithio eich bod chwithau hefyd yn cytuno.

Hefyd parodd cynnig Michelle Griffiths lawer iawn o frwdfrydedd ymhlith y detholwyr ac felly

mae'n derbyn statws 'Canmoliaeth Uchel'. Cymerodd Michelle Griffiths y shibori, traddodiad Siapanecaidd hynafol, a'i ddwyn i mewn i diriogaeth cwbl gyfoes gan greu arddull personol arbennig. Mae lliain heb ei liwio yn cael ei rwymo'n ofalus o amgylch deintbigau pren Siapanecaidd i greu ei chyfres o wrthrychau traws ffrwythlonol sy'n esblygu, sy'n wisgadwy ac yn addurnol. Ategir y rhain gan ei phanel mur lliain a ymestynnwyd soffistigedig, ym mha un y mae rhwyllweithiau yn weddill o bwythau llaw heb eu plicio wedi eu tynnu'n dynn mewn polyester a stemiwyd. Mae ei gwaith yn ddwys dros ben o ran llafur a theimlir yn ddwfn y broses o gael cysur drwy ailadrodd yn y gweithiau barddonol sy'n deillio.

Hoffwn dynnu sylw at waith eithriadol Adam Buick a Sara Moorhouse, dau weithiwr cerameg gwahanol iawn sy'n creu llestri gosgeiddig a chwenychir gan lawer. Yn sail i waith Sara Moorhouse mae dealltwriaeth academaidd gadarn o liw, llinell a rhithiau optegol sy'n deillio ar ffurfiau deallus sydd ag apêl angerddol bwerus. Mewn cyferbyniad mae Adam Buick yn cynhyrchu potiau crwn mawr o glai a gloddir yn lleol sy'n atgoffa rhywun yn gryf o'i dirwedd yn Sir Benfro sy'n hanfod gwedd eu harwyneb a'u palet lliw. Maent yn ddarnau greddf, pleserus sy'n creu effaith ac yn cyffwrdd â'r holl synhwyr. Maent yn onest a ddi-ffws gydag ymdeimlad dramatig gwirioneddol.

Wrth fyfyrto ar y gweithiau a ddetholwyd ar draws y celfyddydau gweledol a heb bwysau traddodiad a disgwyliad; ceir gwir deimlad o hyder a deallusrwydd. Er y byddwn wedi hoffi gweld llai o wahaniaeth o ran niferoedd yr ymgeiswyr Crefft a Dylunio a'r rhai hynny yn y categori Celfyddyd Gain, gobeithiaf fod y gweithiau celf a ddetholwyd yn amlygu rhagoriaeth o'r radd flaenaf yn y maes hwn ac yn annog llawer rhagor i ymgeisio'r flwyddyn nesaf.

Gyda diolch i Robyn Tomos a'm cyd-ddetholwyr Sean Edwards a Declan McGonagle am eu doethineb a'u hiwmor iach, a wnaeth y broses ddethol hon yn bleser pur.

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statements

Sean Edwards

As a practitioner, what always excites me about the Visual Arts Exhibition at the National Eisteddfod is that in addition to throwing up the more recognisable artists it can very often be a platform to discover some less familiar, but no less exciting, practices Wales has to offer. The diversity, across a range of levels of practice, makes it truly 'open' to the artists and most importantly to the audience. This annual open exhibition is capable of displaying the breadth of art practice produced across Wales and, of course, beyond. A rich mixture of styles, themes and disciplines nestle alongside each other. Some are more traditional in style and content than others, but each holds its own in an exhibition that can contain work by 40 plus artists. Its open and informal nature, away from any pretence or art world snobbishness, displays a warmth for the wealth of artwork. This year was not an exception and it was this conviviality felt during the selection process for art produced in Wales, or indeed by Welsh artists, that I hope has manifest itself in our selection and subsequently in the exhibition.

Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, Pen-y-bont ar Ogwr / Archbishop McGrath Catholic High School, Bridgend

Pensaernïaeth yng Nghymru

Architecture in Wales





Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, Pen-y-bont ar Ogwr / Archbishop McGrath Catholic High School, Bridgend

Pensaerniaeth yng Nghymru

Architecture in Wales



Carreg a Gwydr, Cas-gwent / Chepstow



Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd / Royal Welsh College of Music & Drama, Cardiff



Canolfan Addysg Parc Bute, Caerdydd / Bute Park Education Centre, Cardiff



Plas Coch, Llanedwen, Ynys Môn

Pensaernïaeth yng Nghymru

Architecture in Wales



Canolfan Maggie, Ysbyty Singleton, Abertawe / Maggie's Centre, Singleton Hospital, Swansea



Corffdy, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin / Mortuary, Glangwili Hospital, Carmarthen



IBERS, Prifysgol Aberystwyth / IBERS, Aberystwyth University



Beacon Heating, Capel Iwan

60 Datganiad y Detholwyr Pensaerniaeth Architecture Selectors' Statement

***“Mae pob pensaerniaeth yn gysgod,
mae pob pensaerniaeth fawr yn ddylunio
gofod sy'n cynnwys cwtsio, dyrchafu neu
ysgogi'r person sydd yn y gofod hwnnw”***

Philip Johnson

Yn llawer rhy aml mae pensaerniaeth yn ymarferiad haniaethol mewn creu siapau, datgysylltiad rhwng yr amlen allanol a'r gweithgareddau sy'n digwydd oddi fewn. Mae'n bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol i greu lleoedd sydd nid dim ond yn gweithredu fel symbolau o gyfoeth, pŵer a statws. Fel dylunwyr mae angen i ni ddwysau uchelgais ac ystyr yr amgylchoedd a grëir gennym. Gall gofodau addysgu, ysbrydoli a chodi calon pobl. Meddai Ernst Dimnet, 'Pensaerniaeth, o'r holl gelfyddydau, yw'r un sy'n gweithredu yn fwyaf araf ond yn fwyaf sicr ar yr enaid'. Rydym yn byw mewn cyfnod o ddealltwriaeth ddeallusol fawr, pryd y chwiliwn am ystyron dyfnach i'r byd sydd o'n cwmpas a gall pensaerniaeth chwarae ei rôl hollbwysig yn y draffodaeth a'r ddeialog hon. Wrth feirniadu'r cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y gwobrau a'r arddangosfa Pensaerniaeth yng Nghymru eleni roeddem yn chwilio am brosiectau oedd yn creu amgylchoedd mewnol, oedd yn cysylltu â'r amgylchoedd ac a oedd yn

effeithio ar ddeinameg gymdeithasol pobl a'u canfyddiad o bobl eraill o fewn y gofod hwnnw.

Cynrychiola'r 28 cynnig eleni ystod eang o deipolegau adeiladau ac maent yn cwmpasu bron holl ardal ddaearyddol Cymru. O'r 22 practis a gyfranogodd, roedd 77% wedi eu lleoli yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o'r cynlluniau wedi eu lleoli mewn mannau gwledig neu amgylchoedd sydd wedi'u tirweddau'n drwm. Nid oedd y bloc trefol dinesig yn amlwg eleni. Yn bennaf, cynlluniau adeiladu newydd oedd y cynigion gyda rhai cyflwyniadau yn creu deialog gyda strwythurau adeiladau rhestredig a waliau gerddi brics sy'n gyfoethog yn dectonig. Rhoddwyd naw prosiect ar y rhestr fer i'w hystyried ar gyfer Y Fedal Aur am Bensaerniaeth neu'r Plac Teilyngdod.

Ymwelodd y detholwyr â'r holl gynlluniau hyn. Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r cleient, ac mewn rhai achosion y defnyddwyd, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddylanwad y dyluniad pensaernïol ar fywydau'r rhai sy'n gysylltiedig ag ef. Roedd anghenion defnyddioldeb yr adeiladau ar y rhestr fer yn amrywiol a chafodd y detholwyr sawl diwrnod cyffrous.

Roedd y dewis o brosiectau ar restr fer y Plac Teilyngdod yn amrywio'n fawr o ran eu briff, anghenion y cleient a'r ieithwedd bensaernïol.





Carreg a Gwydr, Cas-gwent

Er eu bod i gyd yn ymgysylltu ag amgylchoedd tirwedd cryf, roedd yr ymatebion yn amrywiol. Dehonglodd pob un yr elfennau oedd yn amgylchynu eu safle mewn ffyrdd amrywiol a diddorol. Y mwyaf llwyddiannus o'r rhain oedd annedd sengl, Carreg a Gwydr, yng nghanol cefn gwlad Sir Fynwy gan Hall+Bednarczyk. Gan adeiladu ar bortffolio pensaernïaeth y llynedd mae'r practis wedi creu cartref sy'n sefyll fel datganiad dylunio modern balch ymhlith cyfres o anheddau pastiche, plaen, sy'n anwybyddu'r dirwedd hardd y maent wedi eu lleoli ynddi. Mae gan y tŷ preifat hwn bwynt arsyllu anhygoel sy'n cynnig 270 gradd o olygfeydd panoramig dros Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar draws Dyffryn Afon Gwy a Moryd Hafren. Mae'r annedd, gyda'i ffyrnt a'i gefn nodedig, yn agor ei freichiau i'r golygfeydd gwych a hefyd yn creu deialog o gadernid a thryloywder i ffasâd y gogledd a'r de yn eu tro. Mae dycnwch y cleient a'r tîm dylunio yn wyneb cymhlethdodau cynllunio a chyfyngiadau

ecolegol i'w ganmol yn fawr. Mae'r ateb a ddeilliodd yn creu cyfaint gofodol sydd yn cael ei golli yn aml yn nyluniad cartrefi preifat. Mae golwg yr annedd o ffasâd y de yn dyner iawn ac yn gefnlen ryfeddol i'r elfennau, gan adlewyrchu'r coed a'r lliwiau sy'n amgylchynu'r safle. Mae'r gofod gwydrog uchder dwbl yn uno dwy adain ar wahân gyda chynllun siâp L. Mae gosodiad yr annedd yn syml a rhesymegol, gan hwyluso symud a chyfeiriadedd o amgylch y gofodau mewnol. Mae'r llawr gwaelod cynllun agored yn ymgorffori mynedfa uchder dwbl gyda golau to uwchben, yn cysylltu'r golygfeydd i'r dirwedd a'r awyr. Mae'r to arnofiol tenau gyda'i fanylder hyfryd yn creu cyfaint 3D chwareus i ofodau'r ystafelloedd gwely ar y llawr cyntaf. Mae'r trafod gofalus ar y defnyddiau ar bob ffasâd yn rhoi amrywiaeth o gwmpas y cyfaint allanol. Mae'r waliau carreg crwm tyner ar ddrychiad y gogledd yn amlapio'r adeilad gan adleisio'r dirwedd amaethyddol amgylchynol. Mae slotiau eglur syml ffasâd pren y gogledd a'r cilfachau yng

62 Datganiad y Detholwyr Pensaerniaeth Architecture Selectors' Statement

nghanol y gwaith carreg yn gynefin hyfryd i breswylwyr naturiol y safle, megis ystlumod ac adar. Mae'r prosiect yn enghraifft ardderchog o ddylunio cartref.

Dyfarwnwyd Y Fedal Aur am Bensaerniaeth 2012 i Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, gan HLM Architects. Penderfynodd yr ysgol ail-leoli o'i lleoliad presennol yn Nhondu, i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr, i safle newydd yn y Bracla yng nghanol y dref. Cafodd yr ysgol hon ei hariannu ar y cyd gan Archesgobaeth Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru. Mae i brif adeilad yr ysgol dri llawr ac mae'n lletya 750 o ddisgyblion 11-18 oed, yn cynnwys 150 o ddisgyblion chweched dosbarth. Fel rhan o'i bortffolio ysgolion trawiadol, mae HLM wedi creu canolfan addysgu sydd â phobl wrth galon y dyluniad. Mae adeiladau'r ysgol yn gorwedd o fewn cyfdeilad mwy ei faint sy'n cynnig cyfleusterau gwych ar gyfer y myfyrwyr a'r gymuned leol, yn amrywio o gaeau chwarae awyr agored modern i randiroedd llysiau a gardd. O'r eiliad y cewch eich tynnu at y fynedfa fawreddog mae'n amlwg bod rhyngweithio cymdeithasol ac integreiddio dynol wedi ei weithio'n ofalus i greu teimlad o agosatrydd yn yr ysgol. Gellir gweld llawer o'r gofodau fel gwrogaeth o athroniaeth Herman Hertzberger, y pensaer o'r Iseldiroedd. Mae'r bensaerniaeth yn cynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr i fynegi eu hunain, i fod yn ofalgar o bobl eraill a dysgu mewn ffyrdd newydd a diddorol. Caiff y grisiau canolog sy'n llifo'n osgeiddig i'r awditoriwm eu defnyddio gan y myfyrwyr yn ystod y dydd i fwynhau eu cinio neu i gwrdd â'u ffrindiau ac yna, ar gyfer gweithgareddau ffurfiol, caiff ei drawsnewid yn arena ar gyfer mwynhau digwyddiadau, megis sioeau theatr. Nytha gofodau tawelach o amgylch y grisiau canolog hyn gan ddefnyddio gofod mewn ffyrdd dyfeisgar a syml, heb roi'r argraff eu bod yn ymwithiol nac yn rhai rhy fwiadus. Mae'r ardaloedd addysgu sy'n weddill yn torri'r patrwm coridor archdeipaidd, gan greu clystyrau dysgu sydd wedi eu seilio ar bynciau'r cwricwlwm. Wyneba pob ystafell ddosbarth ardal a rennir sy'n rhoi cyfle i blant o wahanol



Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath,
Pen-y-bont ar Ogwr

ddosbarthiadau ddysgu a rhyngweithio ar yr un pryd. Caiff y gofodau hyn yn aml eu goleuo o agoriadau yn y to uwchben. Er bod yr adeilad yn dri llawr mewn manau, caiff ffenestri to a'r lloriau eu gosod yn ofalus i adael i olau'r haul gyrraedd pob lefel. Defnyddir awyru naturiol a thechnegau mas thermol lle bo'n bosibl gan hyrwyddo adeilad ynni effeithlon. Yn olaf, mae ardaloedd ar gyfer myfyrio sy'n caniatáu i fyfyrwyr ymlonyddu a meddwl, rhywbeth a esgeulusir yn aml yn y gymdeithas brysur, barhaus a chyflym sydd ohoni heddiw. Roedd y bensaerniaeth yn ddatganiad clir o sut y gall dylunio da adeiladu gymuned ysgol wych.

Dan Benham, Rhian Thomas



Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath, Pen-y-bont ar Ogwr

64

Datganiad y Detholwyr Pensaernïaeth

Architecture Selectors' Statement

“All architecture is shelter, all great architecture is the design of space that contains, cuddles, exalts, or stimulates the persons in that space”

Philip Johnson

Far too often architecture is an abstract exercise in shape making, a disconnection between the external envelope and the activities that take place within. It is important in today's economic climate to create places that do more than just act as symbols of wealth, power and status. As designers we need to intensify the ambition and meaning of the environments we create. Spaces can be capable of educating, inspiring and gladden human beings. Ernst Dimnet wrote, 'Architecture, of all the arts, is the one which acts the most slowly, but the most surely, on the soul'. We live in a day of high intellectual understanding, when we seek deeper meanings to the world around us and architecture can play its vital role in this debate and dialogue. In judging the entries received for this year's Architecture in Wales awards and exhibition, we sought projects that created internal environments, which connected with the

surroundings and which affected people's social dynamic and their perception of others within the space.

This year's 28 entries represented a wide range of building typologies and covered almost the whole geographical area of Wales. Of the 22 practices who participated, 77% were based in Wales. The majority of the schemes were located in rural settings or densely landscaped surroundings. The city urban block was not prominent this year. The entries were predominately new build schemes, with certain submissions creating dialogues with listed building structures and tectonically rich brick garden walls. Nine projects were shortlisted for consideration for the Gold Medal for Architecture or Plaque of Merit. All these schemes were visited by the selectors. Discussions ensued with the client, and in some cases the users, in order to obtain a greater understanding of the influence of the architectural design on the lives of those involved. The functional requirements of the shortlisted buildings were very varied and provided a stimulating series of days for the selectors.



Carreg a Gwydr, Chepstow



Carreg a Gwydr, Chepstow

The selection of projects shortlisted for the Plaque of Merit, were disparate in their briefs, client requirements and architectural language. Whilst they all engaged with strong landscape environments, the responses were diverse. Each interpreted the elements that wrapped around their site in varied and interesting ways. The most successful of these was a detached dwelling, Carreg a Gwydr, in the heart of the Monmouthshire countryside by Hall + Bednarczyk. Building on their architectural portfolio of last year, the practice has created a home that stands proud as a statement of modern design, amongst a series of plain, pastiche dwellings that ignore the beautiful landscape in which they are set. The private residence has an exceptional vantage point offering 270 degrees of panoramic views over an Area of Outstanding Natural Beauty covering the Wye Valley and the Severn Estuary. The dwelling, with its distinct front and back, opens its arms to the magnificent views whilst also creating a dialogue of solidity and

transparency to the north and south facades respectively. The perseverance of the client and design team amidst planning complications and ecological restrictions is to be highly commended. The resultant solution creates spatial volume so often lost in the design of private homes. The appearance of the dwelling from the south facade is very delicate and a fantastic backdrop for the elements, reflecting the trees and colours that embrace the site. The double height glazed space unites two distinct wings within an L-shaped plan. The layout of the dwelling is simple and rational, providing an ease of movement and orientation around the internal spaces. The open plan ground floor layout incorporates a double height entrance with roof light above, connecting the views to the landscape, with those of the sky. The slender floating roof, which has been beautifully detailed, creates a playful 3D volume to the first floor bedroom spaces. The careful use of materials on each facade provides diversity around the external volumes. The gently curved

66 **Datganiad y Detholwyr Pensaernïaeth** Architecture Selectors' Statement

stone walls to north elevation wraps around the building echoing the surrounding agricultural landscape. Simple articulated slots in the timber north facade and recesses amongst the stonework are wonderful habitats for the natural inhabitants of the site, such as bats and birds. The project is a marvellous example of home design.

The 2012 Gold Medal for Architecture has been awarded to Archbishop McGrath Catholic High School, by HLM Architects. The school decided to relocate from its current location in Tondy, north of Bridgend, to a new site in Brackla in the heart of the town. This new school was jointly funded by the Archdiocese of Cardiff, Bridgend County Borough Council and the Welsh Assembly Government. The main school building spans three floors and accommodates 750 pupils aged 11-18, including 150 sixth formers. As part of their impressive school portfolio, HLM have created a centre of learning, which has people at the heart of the design. The school buildings sit within a larger complex that offers fantastic facilities for the students and local community, ranging from outdoor state-of-the-art sport pitches to vegetable and garden allotments. From the moment you are drawn into the grand entrance it is clear that social interaction and human integration has been carefully crafted to create a sense of togetherness in the school. Many of the spaces can be seen as gestures to the philosophy of Dutch architect Herman Hertzberger. The architecture offers opportunities for the students to express themselves, to be mindful of others and learn in new and interesting ways. The focal staircase that flows gracefully into the auditorium is used by the students during the day to enjoy their lunch or to catch up with their friends, and then for formal proceedings, it is transformed into an arena for enjoying events, such as theatre shows. Quieter spaces are nestled around this central stairway, utilising space in clever yet simplistic ways, without feeling forced or contrived. The remaining teaching areas break the mould of the archetypical corridor, creating learning clusters based on curriculum subject. Each classroom faces a shared zone, which allows



Archbishop McGrath Catholic High School, Bridgend

children from different classes to learn and interact simultaneously. These spaces are quite frequently bathed in light from openings in the roof above. Despite the building being three storeys high in places, roof lights and floor planes are carefully positioned to allow sunlight to drop down all levels. Natural ventilation and thermal mass techniques are utilised where possible, promoting an energy efficient building. Finally there are areas of contemplation allowing the students to slow down and reflect, far too often neglected in today's continually fast moving society. The architecture was a clear statement of how good design can build a fantastic school community.

Dan Benham, Rhian Thomas



Archbishop McGrath Catholic High School, Bridgend

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth

Architecture Scholarship

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu pensaerniaeth a dylunio yng Nghymru ac fe'i dyfernir i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ledænu ei ymwybyddiaeth o bensaerniaeth greadigol. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed.

Ysgoloriaeth: £1,500

Cefnogir gan Gomisiwn Dylunio Cymru

Detholwyr: Dan Benham, Chris Bird-Jones

Rhennir yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth rhwng **Katherine Jones** Penarth ac **Owain Williams** Treharris

"Pensaerniaeth yw ymestyn am y gwirionedd".

Louis Kahn


Roedd cyflwyniadau eleni ar gyfer yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth o safon ac amrywiaeth uchel iawn. Edrychodd y detholwyr ar sawl portffolio a oedd yn canolbwyntio ar nifer o wahanol agweddau ar y stori bensaernïol. Trosglwyddodd y ceisiadau eu syniadau mewn ffyrdd cyffrous a mynegiannol, a oedd yn gynrychioliadol iawn o'r themâu a'r cysyniadau pensaernïol oedd yn cael eu trafod. Mae wedi bod yn chwa o awyr iach i weld bod y genhedlaeth nesaf o benseiri yn ymddiddori yn y rôl sydd gan bensaerniaeth ym mywydau'r defnyddwyr a'u profiad o ofod, cyfaint a golau.

Cododd y portffolios gwestiynau gwrthgyferbyniol ynglŷn â rôl pensaerniaeth o fewn gwahanol sefyllfaoedd, grwpiau defnyddwyr ac amodau amgylcheddol. Maent yn ymestyn o archwilio perthynas pensaerniaeth a'r byd i drosi a dal llithrigrwydd 3D i bwynt mewn amser. Roedd sensitifrwydd i gyd-destun, y cleient posibl ac elfennau allanol yn rhyfeddol.

Roedd dau o'r cyflwyniadau yn gwbl arbennig am resymau hollol wahanol. Y rhain oedd damcaniaethau ac ymchwiliadau pensaernïol Katherine Jones ac Owain Williams.

Dywed **Katherine Jones:**

'Mae adfer ac ymyriadau modern dramatig i adeiladau hanesyddol yn feysydd sy'n fy nghyfareddu i. Mae fy agwedd i at ddylunio yn deillio o safle a hanes y lle. Ar ôl archwilio ac ymchwilio hanes y safle, defnyddiaf elfennau sydd fwyaf perthnasol i mi er mwyn eu hymgorffori hwy i'r dyluniad. Credaf yn gryf



Amgueddfa Drafnidiaeth Trieste **Katherine Jones**



Prif gynllun Aberhonddu **Katherine Jones**

y dylai dylunio modern fod yn sensitif a hefyd ddangos parch at yr adeiladau sy'n bodoli a'r safle y maent yn ei feddiannu. Yn ogystal â bod yn sensitif i'r lle sy'n bodoli, yr wyf wedi datblygu agwedd at ddylunio sy'n sensitif i bobl a'r amgylchedd. Mae fy niddordebau arbennig i yn ymwneud â dylunio dyneiddiol; creu lleoedd sydd ddim yn unig yn ymateb i anghenion pobl,

ond sydd hefyd yn cyfoethogi gwerthoedd cymdeithasol. Mae fy holl ddelweddau wedi eu darlunio â llaw a'u cyflwyno gan gyfrifiadur; teimlaf fod hon yn ffordd o weithio sy'n deimladwy a chreadigol iawn a'r ffordd fwyaf effeithiol i gyfleu naws y gofod.'


Roedd dealltwriaeth Katherine Jones o 'safle', o'r awyr i dan y ddaear, yn hynod ddiddorol. Dangosodd dealltwriaeth ddofn a chlr o'r rheiny a fydd yn ymgysylltu â'r adeilad, boed eu bod yn bobl, anifeiliaid neu'n adar.

Dywed **Owain Williams**:

'Mae fy niddordebau yn canolbwyntio ar ymarfer critigol pensaerniaeth gyfoes a'r defnydd o fframweithiau dadansoddol a methodolegau cadarn i lywio prosesau dylunio sydd wedi eu hanelu tuag at ymgysylltu cymdeithasol a gwleidyddol mewn adeiladau cyhoeddus.

Gan i mi gael fy magu yn y Cymoedd, yr wyf wedi bod yn ymwybodol erioed o'r angen am adfywio tirwedd ôl-ddiwydiannol maes glo de Cymru. Credaf y dylai astudio pensaerniaeth Cymru fod yn rhywbeth mwy ystyrion na chyfeiriadau amrwd at ramant frodorol, a chynnig yn hytrach ymchwiliad o beth allai teipoleg cwm Cymreig ei olygu mewn gwirionedd - ar lefel sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol a gwleidyddol. Gyda'r lleol yn dal rôl ganolog mewn polisi llywodraeth a thrafodaeth bensaernïol credaf fod y cyfle i bensaerniaeth wneud cyfraniad cadarnhaol ond cytbwys i sut y caiff yr ardal ei hailystyried yn allweddol.

Credaf y gallai'r broses ailfeddyliol hon ddigwydd yn bennaf drwy feirniadaeth o 'fath' yng nghyd-destun y 'Stryd Fawr Gymreig'. Does gan y nodweddion yr ydym i gyd yn gwybod sydd wedi eu gwreiddio yng nghymunedau'r cymoedd fawr ddim i'w wneud â chreffft neu berthnasedd brodorol a ddyfeisiwyd. I mi, mae ymgorfforiad y rhinweddau hyn mewn ymyriadau bensaernïol diweddar yn arwynebol a ffug a ddim yn bwysig i 'fath' y Cymoedd mewn unrhyw ystyr arwyddocaol. Yn hytrach,



Coleg Offeiriadol **Owain Williams**

credaf y dylem fod yn cynnig pensaerniaeth dafluniol sy'n dal naws cymdeithasol y gymuned, ac yn disgrifio ym mha ffordd y mae pobl yn dod ynghyd yn y lleoliad hwn.'

Roedd mynegiant Owain Williams o syniadau pensaerniaeth o ran model, cyfrwng a ddarlunnir a phersbectif yn anhygoel. Roedd symrwydd, harddwch ac eglurder ym mhob delwedd a gyflwynwyd yn brawf gwirioneddol o'i fedrusrwydd bensaernïol a'i ddealltwriaeth o'r themâu oedd yn cael eu trafod yn ei gyflwyniad.

Am y rhesymau uchod caiff yr Ysgoloriaeth Bensaerniaeth ei rhannu rhwng Katherine Jones ac Owain Williams. Dylid rhoi canmoliaeth hefyd i Thomas Cardew a Helen Flynn, oedd hefyd â chyflwyniadau o safon uchel iawn.

Dan Benham, Chris Bird-Jones

Ysgoloriaeth Bensaerniaeth

Architecture Scholarship

This scholarship has been established to promote architecture and design in Wales. The scholarship is awarded to the most promising candidate to enable him or her to further his or her understanding of creative architecture. The scholarship is open to those under 25 years.

Scholarship: £1,500

Supported by the Design Commission for Wales

Selectors: Dan Benham, Chris Bird-Jones

The Architecture Scholarship is shared by **Katherine Jones** Penarth and **Owain Williams** Treharris

“Architecture is the reaching out for the truth”.

Louis Kahn

This year's submissions for the Architecture Scholarship were of very high quality and diversity. The selectors viewed portfolios that focused on many different aspects of architectural discourse. The entries translated their ideas in exciting and expressive ways, which were very representative of the architectural themes and theories that were being discussed. It has been refreshing to see that the next generation of architects are concerned with the role that architecture plays in the lives of the users and their experience of space, volume and light.

The portfolios raised contrasting questions about the role of architecture within different settings, user groups and environmental conditions. Ranging from the exploration of architecture's relationship to the temporal through to the translation and capturing of 3D fluidity into a point in time. The sensitivity to context, the potential client and external elements was fantastic.

Two submissions stood apart for completely contrasting reasons. These were the architectural theories and investigations of Katherine Jones and Owain Williams.

Katherine Jones states:

'Renovation and dramatic modern interventions into historic buildings are areas which fascinate me. My approach to design stems from the site and history of the place. After investigations and research into the history of the site, I draw upon aspects which I find most relevant in order to

incorporate them into the design. I have a strong belief that modern design should be sensitive and respectful to the existing buildings and site which they inhabit. As well as being sensitive to



Trieste Transport Museum **Katherine Jones**



Seminary **Owain Williams**

the existing place, I have developed an approach to design which is sensitive to people and the environment. My particular interests lie in humanistic design; creating places which not only respond to people's needs, but also enhance social values. All of my images are hand drawn and rendered by computer; I find this a very evocative and creative way of working, and the most effective way to convey the atmosphere of the space.'

Katherine Jones' understanding of 'site' from the sky to under the ground was fascinating. She demonstrated a deep and incisive understanding of those that will engage with the building, whether they be humans, animals or birds.

Owain Williams states:

'My interests are focused on the contemporary critical practice of architecture, and the use of analytical frameworks and robust methodologies to inform design processes geared towards social and political engagements in public buildings.

Having grown up in the Valleys, I've always been aware of the need for regeneration in the post-industrial landscape of the south Wales coal field. I believe that the study of Welsh architecture should be something more meaningful than crude allusions to a romanticised vernacular, and instead propose an investigation of what a Welsh valley's typology could really mean - on a socially and politically engaged level. With localism holding

a central role in government policy and architectural discourse, I believe that the opportunity for architecture to make a positive but measured contribution to how the region is reconsidered is key.

I believe that this rethinking process could occur largely through a critique of 'type' in the context of the 'Welsh High Street'. The qualities we all know that are embodied in the communities of the valleys have little to do with craft or an invented vernacular materiality. For me, the embodiment of these qualities in recent architectural interventions is both superficial and false, and not important to the valleys 'type' in any meaningful sense. Instead, I believe that we should be proposing a projective architecture which captures the social nuances of the community, and describes the way in which people converge in this setting.'

Owain Williams' expression of architecture ideas in model, drawn medium and perspective, were incredible. The simplicity, beauty and clarity in every image presented was a true testament to his architectural skill and understanding of the themes that were being discussed in his submission.

It is for the reasons above that the Architecture Scholarship was jointly awarded to Katherine Jones and Owain Williams. Special mention should also be given to Thomas Cardew and Helen Flynn, who submissions were also of very high quality.

Dan Benham, Chris Bird-Jones

Ennill Tir i Bensaerniaeth Cymru

Gaining ground for Architecture in Wales

Os mai cenhadaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yw tynnu sylw'r cyhoedd i bwysigrwydd pensaerniaeth ym mywyd a diwylliant y genedl, mae 2012 yn garreg filltir yn hanes yr adran hon. Eleni, diolch i gefnogaeth barhaol Comisiwn Dylunio Cymru, dyma wireddu arddangosfa arbennig sy'n adlewyrchu'r broses greadigol sydd wrth wraidd dylunio da. Amcan y curadur, Rhian Thomas, fu'n cynorthwyo gyda dethol gwobrau Pensaerniaeth yng Nghymru, yw dangos sut mae'r pensaer yn meddwl wrth fynd i'r afael â briff penodol, Y bwriad hefyd yw cynnig cyd-destun newydd i'r cyflwyniad digidol arferol.

'Beth yw'r rhagolygon i Gymru?' holodd Dewi-Prys Thomas yn ei ysgrif 'Pensaerniaeth a Chymru' yn y chwarterolyn *Tir Newydd* nôl yn 1939. Gydol ei oes roedd yr athro carismatig a'r cenedlgarwr yn teimlo'n angerddol dros Gymru a'i hamgylchedd. Ac roedd tynnu sylw at bwysigrwydd pensaerniaeth yn niwylliant y genedl yn rhan annatod o'i genhadaeth. Iddo ef roedd annibyniaeth Cymru yn gyfystyr â chynnydd mewn pensaerniaeth.


'Wedi cael mesur o hunanlywodraeth, meithrinir gwell chwaeth yn gyffredinol, a bydd galw am well adeiladwaith, a rhoddir cyfle i'r pensaer,' mynnai. Wrth gwblhau'r llith, meddai, '...rhaid ymdrechu'n galed i droi'n breuddwydion yn ffeithiau.'

Os, yn ôl Dewi-Prys Thomas, ffurf ar gelfyddyd, a arferai bod yn ddrych o fywyd ac arferion yr oes yw pensaerniaeth, ydi hi'n adlewyrchu dyheadau a gobeithion y genedl heddiw? Yn enwedig yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymryd y cam diweddaraf yn y broses o ddatganoli.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Morgannwg 2012, diolch i'r gystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru a'i changen leol, Y Cylch Dylunio, gwelir adeilad newydd ar y Maes. Maen prawf y gystadleuaeth oedd dylunio Pafiliwn Pensaerniaeth, i'w godi ger Y Lle Celf, a fyddai'n dathlu ac ysbrydoli a chodi trafodaeth ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Penseiri Coombs+Jones, biau'r dyluniad buddugol.

Mae'r ddau bensaer yn raddedigion o Ysgol Bensaerniaeth Cymru, Caerdydd - Dewi-Prys Thomas oedd Athro Pensaerniaeth cyntaf y sefydliad.



O'i chymoedd, coedlannau a'i llennyrch i'w cheudyllau a'i waliau, mae adeilad Coombs+Jones wedi cymryd elfennau o'r tirlun yng Nghymru er mwyn creu'r ymdeimlad o diroedd anial cefn gwlad. Yn ogystal, wrth symud y tu hwnt i ffiniau pafiliwn syml, mae'n creu gofod ychwanegol i'w brofi.




Pafiliwn Pensaerniaeth, Coombs+Jones

Yn y Pafiliwn Pensaerniaeth ar ddydd Sul yr Eisteddfod bydd ymgyrch i ddenu enwebiadau ar gyfer Gwobr Dewi-Prys Thomas 2012 yn cael ei lansio. Amcan y wobwr, a ddyfernir bob tair blynedd, yw cydnabod pwysigrwydd dylunio da i ansawdd bywyd, hunaniaeth ac adfywiad Cymru. Yn ogystal, cynhelir trafodaeth 'Ennill Tir Newydd' ar ddydd Mawrth, 7 Awst, a fydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hunaniaeth bensaerniol Cymru.

Dyma gyfle ym Mro Morgannwg 2012, i dathlu dylunio da a'r awch am ddylunio da yn ein diwylliant.





National Assembly for Wales and taking the latest step in the devolution process.

At the Vale of Glamorgan 2012 National Eisteddfod of Wales, thanks to the competition organised by the Royal Society of Architects in Wales and its local branch, the Design Circle, a new structure can be seen on the Maes. The touchstone of the competition was to design an Architecture Pavilion, to be erected within the vicinity of Y Lle Celf, which would celebrate and inspire, and stimulate debate concerning the vision for the future. Coombs+Jones Architects submitted the winning design. The two architects are graduates of the Welsh School for Architecture, Cardiff where Dewi-Prys Thomas was the first Professor of Architecture.

Coombs+Jones' building has taken elements of the Welsh landscape – from its valleys, woodlands, and clearings to its hollows and walls - to evoke the feeling of being in the wild areas of the rural countryside. Equally, by going beyond the boundaries of a simple pavilion, the construction creates a wider space to experience.



Carreg a Gwydr concept sketches

Within the Architecture Pavilion, on Sunday, 5 June, the call for nominations for the Dewi-Prys Thomas Prize 2012 will be launched. The aim of this triennial award is to recognise the importance of good design to the quality of life, identity and regeneration of Wales. In addition, the 'Ennill Tir Newydd' (Gaining New Ground) event will be held on Tuesday, 7 August, at which issues of Welsh architectural identity will be addressed.

Here's an opportunity at the Vale of Glamorgan 2012 to celebrate good design and the passion for good design in our culture.



Gwyfynddyn / Moth-man

Roedd y symud cyson i mewn ac allan o'r ardal, y cyfnewid syniadau a dysgeidiaeth ddigwyddodd yno, ynghyd â datblygiad y dechnoleg ddarlledu, yn codi'r gyson yng nghyfarfodydd pwyllgor Celfyddydau Gweledol Bro Morgannwg 2012. Yn enwedig wrth ystyried arddangosfa arbennig Y Lle Celf eleni. Rhestrwyd lleoliadau arwyddocaol megis Goleudy Nash Point, Maes Awyr Rhyngwladol Cymru, Llanilltud Fawr a Phriordy Ewenni ynghyd â hen faes awyr RAF Llandow, sef safle'r Brifwyl ei hun. Trafodwyd teithiau'r seintiau dramor ac arbrawf hanesyddol Marconi i anfon negeseuon radio. Nodwyd bod y fro hon wedi creu cysylltiadau â phedwar ban byd.

Dyma adeiladu ar y syniad bod Maes yr Eisteddfod yn echel i adenydd lluosog sy'n ymestyn ar draws Bro Morgannwg a thu hwnt. Hynny yw, ei bod yn ganolbwynt i rwydwaith creadigol enfawr. Dyma benderfynu mai creu ffurf ar *Gesamkunstwerk* fyddai'r ateb. I'r perwyl, dyma wahodd casgliad o artistiaid lleol i ymateb i'r cysyniad. Gan weithio trwy gyfrwng

ffilm, sain, perfformio, gwaith gosod a cherddoriaeth, mae'r cyfranogwyr wedi mynd ati i gyflwyno cardiau post byw, argraffiadau gweledol ac atseiniau o amrywiol leoliadau ym Mro Morgannwg a chreu celf 'ar grwydr', byrfyfyrion a darfodedig.

Y Gwaith Celf

Marconica

Cardiau post sonig yn ysbryd Marconi gynt, sy'n adlewyrchu amgylchedd sain treftadaeth naturiol, hanesyddol, technegol a diwylliannol Bro Morgannwg. Crëwyd gan Artistiaid Sonig Cymru: David Bird, Hugh Fowler, Michael Johnson, Gethin Jones, Simon Kilshaw, Deri Roberts, Stephen Wheel a Gareth Whittock.

Murlunsain

Ysbrydolwyd Benjamin Talbott a Tom Roberts, myfyrwyr technoleg sain a cherddoriaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gan furluniau Eglwys Cadog Sant yn Llancarfan sydd yn enghraifft prin iawn o furluniau o'r

ban¹ [Llyd. *ban*, Gwydd. C. *bend*, *benn*, 'corn, pigyn' o'r gwr. **bend-* 'pigyn blaenllwm'] *eg. b. ll. bannau, -iau, -edd.*

bymthegfed ganrif yng Nghymru. Maent yn adrodd hanes San Siôr a hefyd yn dynodi'r Saith Pechod Marwol. Gan gydweithio gyda'r cyfarwyddwr Pete Telfer, plethwyd sain a cherddoriaeth gyda ffilm i greu dehongliad trawiadol o'r murluniau.

bywyd llonydd / yn dal i fyw

Argraffiadau o safleoedd pwysig yn hanes diwylliannol Bro Morgannwg drwy lygaid camera cylch cyfyng - gan graffu a llygadu'r dirwedd drwy gyfrwng technoleg gyfoes i ysbio ar 'fro fy nhadau' heddiw. Cyflwyniad gan good cop bad cop.

Gwyfynddyn


Yn ei siwt siaman aflonydd o ddarnau coll, mae'r Gwyfynddyn yn cylchdroi'r lleoliad . Catalog anghyflawn y gwyfynegwr o ddernynnau, eto heb drefn na naratif, byth yn ddim mwy na rhith wedi ei dafluio o fewn y lleoliad. Delwedd lechwraidd heb esboniad na sicrwydd na chwaith ofn yn y tywyllwch. Yn anhysbys heblaw am yn yr ennyd hon, yr hyn na wahoddwyd sy'n llenwi y ninnau yn ein bywydau gyda'r hunan. Dernynnau ffilm gan Richard Powell.

fan hyn

'Lle celf' symudol wedi ei leoli yng nghanol y Maes Carafanau yw fan hyn. Rhith o'r profiad eisteddfodol gydag amrywiol artistiaid a beirdd yn cael eu gwahodd i ymateb yn ddyddiol i'r profiad eisteddfodol. Mae'r cyfan yn cael ei ffrydio nôl i ofod BAN yn Y Lle Celf er mwyn rhoi cyfle i eisteddfodwyr brofi bwrlwm yr Adlen a diwylliant amgen y garafán. Cyflwynir y gweithgareddau gan Roger Lougher.

Hunanliniadur

Hunan bortreadau mewn amser, arbrofion mewn canfod dull uniongyrchol, ymatebol i fynegi awyrgylch a phrofiad. Drama mewn gwagle, emosiwn heb gyd-destun. Mae Cathy Boyce yn defnyddio ei gliniadur i arsyllu ei hunan gyda'r gefnlen yn aml yn cyflwyno drama anuniongyrchol.



fan hyn



bywyd llonydd / yn dal i fyw

Gwireddwyd BAN gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac YMDDIRIED, Ymddiriedolaeth Ddarlledu Gymreig.



still life / still live

The constant shifting in and out of the area, the exchange of ideas along with the development of broadcast technology, were recurring themes at the Vale of Glamorgan 2012 Visual Arts committee meetings. Especially whilst considering the special exhibition at Y Lle Celf this year. Sites of significance were listed such as Nash Point Lighthouse, Wales International Airport, Llantwit Major and Ewenny Priory, along with the former location of RAF Llandow – the Eisteddfod site itself.

The saints' journeys overseas and Marconi's historical experiment of sending radio messages were discussed. It was noted that the Vale of Glamorgan has made connections with the four corners of the world. The notion was established of the Eisteddfod Maes being a hub to multiple spokes stretching across the Vale and beyond and of the festival being at the centre of a great creative network. It was decided that the solution should be the creation of a form of *Gesamkunstwerk*. To this end, a group of local artists were invited to respond to the concept. Working in film, sound, performance, installation art and music, the participants have created visual impressions, live post cards,

sounds and echoes – capturing the ephemeral, the impromptu, the art of constant change and movement.

The Artwork

Marconica

Sonic postcards in the spirit of Marconi representing the sound worlds of the Vale of Glamorgan's natural, historic, technological and cultural heritage. Created by Sonic Artists Wales: David Bird, Hugh Fowler, Michael Johnson, Gethin Jones, Simon Kilshaw, Deri Roberts, Stephen Wheel and Gareth Whittock.

Soundmural

Benjamin Talbott and Tom Roberts, sound and music technology students from the Royal Welsh College of Music and Drama, were inspired by the recently discovered murals in St Cadoc's Church, Llanccarfan and which are extremely rare examples of fifteenth century murals in Wales. They depict the story of St George and also the Seven Deadly Sins. Working with director Pete Telfer, music and sound were combined with these beautiful images to create a striking interpretation of the murals.

ban¹ [Llyd. *ban*, Gwydd. C. *bend*, *benn*, 'corn, pigyn' o'r gwr. **bend-* 'pigyn blaenllym'] *eg.b.* ll. *bannau*, *-iau*, *-edd*.

still life / still live

Fleeting snatches of key sites in the cultural history of the Vale of Glamorgan as seen through the lens of a CCTV camera - it peers and surveys the landscape, using contemporary technology to spy on today's 'vale of my fathers'. Presentation by good cop bad cop.

Moth-man

The restless shaman suit of lost parts, *Moth-man*, orbits the site. An incomplete lepidopterist's catalogue of fragments, yet without order or narrative, never reaching within the site, other than a projected illusion. An image sheltering unexplained and without certainty or apprehension in a temporary dark. Unknown other for in that instance, momentarily, it is the uninvited that, which fills the us of our lives, with its own self. Film fragments by Richard Powell.

fan hyn

A mobile art pavilion located on the Eisteddfod Caravan site which presents a mirror image of the Eisteddfod experience. Artists and poets will be invited to respond daily to the Eisteddfod experience and it will be streamed live to the BAN space at Y Lle Celf so that Eisteddfod goers can see the lively events held in the Awning and the alternative caravan culture. The activities are curated by Roger Lougher.

Laptopsself

Self portraits in time, experiments in discovering a direct and responsive way to express atmosphere and experience. Drama in a void, emotion without context. Cathy Boyce uses her laptop to view herself against backdrops which often present their own drama indirectly.

ban¹ [Llyd. *ban*, Gwydd. C. *bend*, *benn*, 'corn, pigyn' o'r gwr. **bend-* 'pigyn blaenllym'] *eg.b.* ll. *bannau*, *-iau*, *-edd*, *-oedd*, a hefyd fel *a*.

1. Pen, blaen, pwynt, brig, copa, crib, ffig. am bennaeth; pigyn, mynydd, moel, begwn, uchelfan: *top, tip, point, summit, crest, fig. for lord, chief; peak, mountain, bare hill, beacon, height.*

12-13g. C 106. 11, Diaspad vererid y ar bann caer. 13g. A 26.3, tutvwich kyvwich a oreu vwich ar bann caereu. 14g. R 1034. 41-2, Yny bann od ywch lloan dar, yde[n]deweis i leis adar. 14g. B v. 218, Hu yn rodi govunet y Duw y ar bann y twr. 15g. H 82b. 12. 16g. B i. 320, bann i. moel o fynydd. 1592 S. D. Ruys: *Inst* [xxi]. c. 1600 Cy xxvii. 124, mynydd neu fann neu foel fawr uchel.

Digwydd mewn enwau mynyddoedd, yn enw. yn y De, fel *Bannau Brycheiniog*, *Ban Arthur*, *Tal-y-fan*, &c.

Cfn.: ban caer: *rampart of fort.* 12-13g. C 106. 11. 13g. WM 489. 15. 14-15g. SDR 47-8. 1527 B ii. 206.

2. Corn anifail; corn yfed, buelin; corn canu: *horn of animal; drinking horn; sounding horn, bugle.*

13g. T 48. 19-20, bum bann bum banhwch. 14g. R 1397. 12-13. 15g. H 12a. 25, Gweleis hael yn helliaw bann llawn. *id.* 46b. 5-6. 1588 B i. 320, bann: corn anivaill.

Cfn.: ban eidion: *horn of ox.* c. 1300 LIB 96. ban hydd: *hart's horn or antler.* *ibid.* Hefyd mewn enwau lleoedd, e.e.† *Bancarw* yn sir Gaern. a Chered.

3. (a) Cornel, congl, pedryfan, rhan, parth, ardal, lle: *corner, angle, quarter, part, region, place.*

13g. T 34. 11, ac am y bannu firydeu gweilgi. 14g. B v. 210, [p]edeir bann y gadeir. 14-15g. IGE² 230, Y radd a'r ban, seithran sathr, / Y bo'r haul ar wybr hylathr. 15-16g. LLAWDDEN: Gw 193, Bid ar y byd bedwar ban. 1567 TN 303b, ym-pop ban [-lle, rrandir]. 16g. (1763) W. SALESBURY: LIM 37. 1595 Egl Ph 43, pob bann o'r byd. 1604-7 TW (Pen 228) d.g. locus.

Cfn.: bannau(r) hyd: *corners, quarters, regions of the world.* 14g. R 1290. 34. 1455-85 LGC 71. 16g. HG 108. ban haul (term Gorseddol): *equinox, solstice.* *Disw.* 18g. (cf. Pen 49, 165). b. lleuad (term Gorseddol): *one of the four quadratures or quarters of the moon.* *Disw.* 18g.

Gw. hefyd *pedeirban y byd*, *pedair bannoedd y byd*, *pedeirfannoedd*, *pedryfan*, *pedwar ban*, *teirban*, *tri ban*, &c.

BAN is realised with the support of
Arts Council for Wales and YMDDIRIED,
Welsh Broadcasting Trust.

**Panel Sefydlog Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Standing Panel**

Cadeirydd / Chair

Angharad Pearce Jones

Martin Barlow

Elen Bonner

Sian Melangell Dafydd

Lowri Davies

Owen Griffiths

Aled Rhys Hughes

Ann Fiona Jones

Sian Owen

Andrew Parry

Nia Roberts

Pete Telfer

Dafydd Tomos

Mererid Velios

Elinor Grey Williams

Ffion Jon Williams

**Swyddog Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Officer**

Robyn Tomos

**Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Sub-committee**

Cadeirydd / Chair

Mari Beynon Owen

Is-gadeirydd / Vice-chair

Ifor Davies

Ysgrifennydd / Secretary

Huw Davies

Rawley Clay

Lowri Davies

Tim Halewood

Caitlin Jenkins

Simon Kilshaw

Anne Morgan

Richard Huw Morgan

**Detholwyr Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Selectors**

Sean Edwards

Declan McGonagle

Laura Thomas

**Detholwyr Pensaernïaeth /
Architecture Selectors**

Dan Benham

Rhian Thomas

**Detholwyr Ysgoloriaeth Bensaernïaeth /
Architecture Scholarship Selectors**

Dan Benham

Chris Bird-Jones

**Dylunydd yr Arddangosfa /
Exhibition Designer**

Sean Harris

**Prif dechnegydd /
Chief technician**

John Walker

Curadur BAN / BAN Curator

Mari Beynon Owen

**Technegydd /
Technician**

Paul Emmanuel

**Curadur Pensaernïaeth /
Architecture Curator**

Rhian Thomas

**Dylunydd rhaglen Pensaernïaeth yng
Nghymru ac Ysgoloriaeth Bensaernïaeth /
Architecture in Wales & Architecture
Scholarship programme designer**

Mike Barnes

Bardd / Bard

Mari George

**Dylunio'r catalog /
Catalogue design**

Peter Marks

Dymuna Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol Bro Morgannwg ddiolch: /
The Vale of Glamorgan Visual Arts Sub-committee wish to thank:

Pete Goodridge, Artworks

Canolfan Grefft Rhuthun /
Ruthin Craft Centre

Foxy's Delicatessen, Penarth

Celf-fan Wledig Coed Hills /
Coed Hills Rural Arts Space

Y Cylch Dylunio /
Design Circle

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru /
Royal Society of Architects in Wales

Ysgol Bensaerniaeth Cymru /
Welsh School of Architecture

Comisiwn Dylunio Cymru /
Design Commission for Wales

Llenyddiaeth Cymru /
Literature Wales

Taliesin

S4C

Derbyniwyd y cyfraniadau canlynol:
The following contributions were received:

£500 Er cof am Howard F. Davies gan ei deulu a'i
ffrindiau / In memory of Howard F. Davies
from family and friends

£200 Nic a Shirley Hodges, Y Barri

£80 Gwobr Cyngor Tref Caerffili /
Caerffili Town Council Award

£40 Gwobr Goffa Eluned Williams /
Eluned Williams Memorial Award

£40 Gwobr Goffa Olwen Hughes, Rhymni /
Olwen Hughes, Rhymney, Memorial Award

£10 Gwobr Thomas Daniel Varney, Trefdraeth /
Thomas Daniel Varney, Newport, Award



Cefnogwyd gan grant oddi wrth
Cyngor Celfyddydau Cymru
Supported by a grant from Arts
Council of Wales

mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru
in partnership with Arts Council of Wales

